

AMODAU PRESWYLIO SAFONOL PRIFYSGOL BANGOR

Gwybodaeth Bwysig

Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2020/21, os bydd yn rhaid i'r Brifysgol ohirio dechrau'r Cyfnod Preswyllo oherwydd Covid-19, nid oes angen i'r Myfyriwr roi rhybudd y bydd yn cyrraedd yn hwyr oni bai ei fod yn cyrraedd ar ôl y Dyddiad Dechrau Gohiriedig. Os bydd y Brifysgol yn gohirio dechrau'r Cyfnod Preswyllo, "diwrnod cyntaf" neu "ddechrau" y "Cyfnod Preswyllo" fydd y Dyddiad Dechrau Gohiriedig. "Diwedd" y Cyfnod Preswyllo fydd y dyddiad y daw'r Cyfnod Preswyllo i ben, fel y nodwyd yn y Cynnig NEU, os ynghynt, y dyddiad y bydd y Brifysgol neu'r Myfyriwr yn dod â'r contract llety i ben, fel y caniateir gan y telerau.

1 Rhagarweiniad

- 1.1** Mae'r amodau sy'n cael eu hamlinellu yn y ddogfen hon yn gymwys i Fyfyryr sy'n cytuno i gymryd llety sy'n eiddo i'r Brifysgol, neu a brydesir neu a reolir ganddi. Unwaith bod y Myfyriwr wedi derbyn cynnig llety gan y Brifysgol a bod y Brifysgol wedi derbyn blaendal rhent y Myfyriwr, **bydd yr amodau hyn yn ffurfio rhan o GONTRACT CYFREITHIOL-RWYM rhwng y Brifysgol a'r Myfyriwr.** Caiff gweddill y contract ei amlinellu yn y cynnig llety.
- 1.2** Mewn rhai achosion eithriadol, bydd y Brifysgol yn hepgor y gofyniad am flaendal rhent. Mewn achosion felly, bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod i'r Myfyriwr bod y blaendal wedi ei hepgor ac yn cadarnhau bod y contract bellach yn rhwymol.
- 1.3** Daw'r cytundeb rhwng y Brifysgol a'r Myfyriwr dan gyfraith Loegr ac efallai y bydd Myfyryr tramor yn ei weld yn bur wahanol i'r gyfraith sydd mewn grym yn eu gwledydd eu hunain. Dylai Myfyryr nad ydynt yn sicr ynglŷn ag ymrwymo i'r contract preswyllo geisio cyngor cyn derbyn eu cynnig llety.
- 1.4** Cyfrifoldeb y Myfyriwr yw **DARLLEN YR AMODAU HYN YN OFALUS CYN DERBYN Y CYNNIG** llety. Pan dderbynnir y cynnig, mae'r Myfyriwr yn cytuno i gydymffurfio â'r amodau hyn a bydd yn gyfreithiol-rwym wrthynt.
- 1.5** Er mwyn gwarchod buddiannau'r Brifysgol a mwyafrif y myfyryr, os bydd Myfyriwr yn torri'r amodau hyn, gall y Brifysgol gymryd unrhyw gamau gorfodi rhesymol, gan gynnwys camau disgyblu, gofyn i'r Myfyriwr dalu iawndal, neu derfynu'r contract, yn dibynnu pa mor ddifrifol yw'r tor-amod.
- 1.6** Yn yr amodau hyn mae Cynnig yn golygu cynnig gan y Brifysgol i ddarparu llety preswyl ac mae "Myfyriwr" yn golygu naill ai'r unigolyn a enwir yn y Cynnig neu (pan fo'r cyd-destun yn caniatáu) unrhyw berson sydd yn byw yn gyfreithlon yn llety'r Brifysgol neu unrhyw berson sydd wedi derbyn Cynnig ac sydd wedi (neu y bernir ei fod wedi) talu blaendal rhent.
- 1.7** Mae cyfeiriadau yn yr amodau hyn at Rent, Cyfnod Preswyllo, a Llety yn gyfeiriadau at wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y Cynnig. Mae cyfeiriadau at Gynnwys yn gyfeiriadau at eitemau a ddarperir mewn llety gan y Brifysgol i Fyfyryr eu defnyddio; yr Adeilad yw'r adeilad y lleolir y Llety ynddo, ac mae Mannau Cyffredin yn cynnwys manau o'r Adeilad (gan gynnwys unrhyw diroedd) at ddefnydd cyffredin y myfyryr.
- 1.8** Rhaid i Fyfyryr anfon pob gohebiaeth am eu contract (gan gynnwys, at ddibenion adran 48 o'r Ddeddf Landlord a Tenant 1987, unrhyw achosion cyfreithiol) i'r Swyddfa Neuaddau, Pentref Ffriddoedd, Ffordd Ffriddoedd, Bangor, Gwynedd LL57 2GP, 01248 382667 neu trwy e-bost i neuaddau@bangor.ac.uk ac eithrio lle noda'r amodau i'r gwrthwyneb.
- 1.9** Lle bo'r amodau hyn yn mynnu bod Myfyriwr yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Brifysgol ac na all y Myfyriwr wneud hynny am resymau sy'n ymwneud ag anabledd, gall y Myfyriwr ddefnyddio dull arall

o gyfathrebu, ond mewn achosion o'r fath, bydd y Brifysgol yn cadarnhau'r hysbysiad i'r Myfyriwr yn ysgrifenedig neu trwy gyfrwng parhaol arall.

2 Rhwymedigaethau'r Myfyriwr

Mae'r Myfyriwr yn cytuno i gymryd y llety a ddisgrifir yn y Cynnig ac yn cytuno:

2.1 Bod rhaid i'r Myfyriwr dalu blaendal rhent i'r Brifysgol wrth dderbyn y Cynnig.

Mewn rhai achosion eithriadol, bydd y Brifysgol yn hepgor y gofyniad am flaendal rhent. Mewn achosion felly bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod i'r Myfyriwr yn ysgrifenedig bod y blaendal wedi ei hepgor. Ymhob achos arall, rhaid i'r Myfyriwr dalu blaendal Rhent.

Nodir swm y blaendal Rhent ym mhob Cynnig. Oni cheir hawl ildiad ysgrifenedig gan y Brifysgol, rhaid i'r Myfyriwr dalu ei flaendal wrth dderbyn y Cynnig. Ni fydd y Brifysgol yn cadw ystafell ar gyfer y Myfyriwr hyd nes y telir y blaendal (neu ei hepgor).

Unwaith bod y Myfyriwr wedi derbyn y Cynnig a bod y Brifysgol wedi derbyn (neu hepgor) y blaendal mae'r Myfyriwr wedi ei rwymo mewn contract i dalu'r Rhent am y Cyfnod Preswyllo llawn oni bai bod tenantiaeth y Myfyriwr wedi ei derfynnu yn un o'r ffyrdd a nodir yn y telerau a'r amodau hyn. Nid oes gan y Myfyriwr gyfnod 'ailfeddwl' na hawl i ganslo dim ond oherwydd bod y Myfyriwr wedi newid ei feddwl ynghylch a yw eisiau'r llety. Os yw'r Brifysgol wedi hepgor y gofyniad i dalu'r blaendal rhent, mae'r Myfyriwr yn rhwym mewn contract pan fo'r Myfyriwr yn derbyn y Cynnig.

Taliad tuag at y Rhent yw'r blaendal. NID blaendal a gaiff ei ad-dalu yw'r blaendal.

2.2 Talu gweddill y Rhent ymlaen llaw i'r Brifysgol ar y dyddiadau y cytunwyd arnynt

Mae'r Rhent a ddangosir yn y Cynnig yn cynnwys y blaendal. Gall Myfyriwr ddewis sut a phryd i dalu gweddill eu Rhent o'r cynlluniau a'r dulliau rhandalu sydd i'w gweld ar wefan y Brifysgol yn <https://apps.bangor.ac.uk/payment/thirdparty/>.

Dylai myfyriwr Erasmus a myfyriwr cyfnewid neu fyfyrwr eraill sy'n ymweld â'r Brifysgol ac sy'n preswyllo am 1 semester yn unig dalu yn llawn wrth gyrraedd neu yn ôl y cyfarwyddiadau ar yr atodlen dalu ar wahân a anfonir atynt gyda'u Cynnig.

Dylai Myfyriwr israddedig eraill dalu yn llawn wrth gofrestru neu trwy awdurdod rheolaidd o gerdyn talu, mewn 3 neu 7 rhandaliad trwy <https://apps.bangor.ac.uk/payment/thirdparty/>.

Gall Myfyriwr Ôl-radd hefyd dalu yn llawn ymlaen llaw, neu trwy 12 rhandaliad trwy <https://apps.bangor.ac.uk/payment/thirdparty/>.

Caiff manylion llawn ynglŷn â sut i dalu eu nodi hefyd yn yr wybodaeth am daliadau a ddarperir gan y Brifysgol yn Nyddiadur Wythnos Groeso'r Myfyriwr. Wrth gofrestru, bydd Myfyriwr nad ydynt eto wedi dewis cynllun talu yn cael eu cymell i wneud hynny.

Unwaith y bydd Myfyriwr wedi dewis cynllun rhandalu, ni all newid y cynllun hwnnw heb i'r Brifysgol gytuno i hynny'n ysgrifenedig yn gyntaf. Os nad yw Myfyriwr yn talu Rhent ar neu cyn y dyddiadau talu a bennir yn y cynllun talu a ddewiswyd ganddo, mae'r Myfyriwr yn debygol o wynebu taliadau llog, fel y nodir isod.

Mae'r Rhent i'w dalu "ymlaen llaw". Mae hyn yn golygu bod y rhandaliad a delir ar y dyddiad talu yn berthnasol i'r cyfnod o'r dyddiad hwnnw hyd ddyddiad y rhandaliad nesaf. Ar yr adegau prin hynny

pan fo angen cyfrifo cyfradd ddyddiol, caiff hynny ei wneud trwy gymryd cyfanswm y Rhent a'i rannu â chyfanswm nifer y dyddiau yn y Cyfnod Preswyllo. Wrth dderbyn Cynnig, mae Myfyriwr yn cytuno i dalu'r Rhent yn llawn am y Cyfnod Preswyllo cyfan.

Os bydd y Myfyriwr yn methu â thalu'r Rhent yn llawn cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod gan ddechrau gyda'r dyddiad ("y dyddiad dyledus") y mae'n ofynnol gwneud y taliad yn unol â'r cytundeb tenantiaeth bydd y Myfyriwr yn atebol i dalu i'r Brifysgol log ar 3% y flwyddyn uwchlaw cyfradd sylfaenol Banc Lloegr a hynny am bob diwrnod ar ôl y dyddiad dyledus y mae'r rhent yn parhau i fod heb ei dalu, wedi'i gymhwyso i swm y Rhent sy'n parhau i fod heb ei dalu ar ddiwedd pob diwrnod.

Mae gan y Brifysgol weithdrefn rheoli credyd y mae'n ei dilyn pan na thelir Rhent mewn pryd. <https://www.bangor.ac.uk/accommodation/essential.php.cy> Ni fydd y Brifysgol fel mater o drefn yn atal cymwysterau academaidd, ond mewn achosion pan fo ôl-ddyledion difrifol, pan roddwyd cyfle rhesymol i'r Myfyriwr dalu, efallai na chaiff y Myfyriwr raddio.

Dylai'r myfyriwr hynny sy'n wynebu trafferthion ariannol gysylltu â Swyddfa Gyllid y Brifysgol unwaith y dânt i wybod bod problem yn debygol o godi. Gallai gwneud cyswllt cynnar olygu na fydd yn rhaid i'r Myfyriwr rhag dalu llog. Po hwyaf yr oedwch cyn talu, po fwyaf fydd y ddyled, ac felly mae'n bwysig nad yw'r Myfyriwr yn anwybyddu'r cyfrifoldeb sydd arnynt i dalu.

Mae'n annhebygol y bydd y Brifysgol yn cynnig llety am gyfnod preswyllo pellach i Fyfyriwr sydd â dyled Prifysgol neu record ddrwg o dalu.

Os bydd yn rhaid i'r Brifysgol fynd i'r llys i adennill arian sy'n ddyledus gan Fyfyriwr, bydd y Brifysgol yn gofyn i'r llys orchymyn bod y Myfyriwr yn cytuno i dalu costau a threuliau priodol a rhesymol y Brifysgol gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i gostau cyfreithiol, ffioedd llys, treuliau a TAW a chost amser rheoli.

Gall Myfyriwr sydd ag ôl-ddyledion Rhent sylweddol golli eu cartref. Os yw'r Rhent 28 diwrnod yn hwyr, gall y Brifysgol – yn ogystal neu yn hytrach na mynd i'r llys i adennill y ddyled – derfynu'r contract a chymryd camau i droi'r Myfyriwr allan. Bydd y Brifysgol yn gofyn i'r llys orchymyn bod y Myfyriwr yn talu costau a threuliau priodol a rhesymol y Brifysgol (gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i gostau cyfreithiol, ffioedd llys, treuliau a TAW a chost yr amser rheoli) sy'n gysylltiedig â chamau o'r fath.

Os bydd y Brifysgol yn cymryd camau llwyddiannus yn y llys i adennill y ddyled, cofnodir y dyfarniad yng nghofnodion y llys sirol. Bydd asiantaethau gwirio credyd yn chwilio'r cofnodion hyn, a gall unrhyw Fyfyriwr a enwir ar gofrestr dyfarniadau'r llys sirol ei chael yn anodd rhentu llety yn unman arall, na chael cerdyn credyd, cerdyn siop na chontract ffôn symudol... na morgais chwaith yn y dyfodol.

Mae Myfyriwr yn atebol am y Rhent am y Cyfnod Preswyllo cyfan, oni therfynir tenantiaeth y Myfyriwr yn un o'r ffyrdd a amlinellir yn yr amodau hyn.

Mae'r Rhent yn daladwy o ddiwrnod cyntaf y Cyfnod Preswyllo, hyd yn oed os bydd y Myfyriwr efallai yn cyrraedd yn hwyr a heb fod yn byw yno ers y dyddiad hwnnw. Ni roddir ad-daliad Rhent am unrhyw gyfnodau o absenoldeb oni bai bod hynny wedi'i nodi'n benodol yn yr amodau a'r telerau hyn.

2.3 Hysbysu'r Brifysgol os bydd yn cyrraedd yn hwyr (ac eithrio mewn perthynas â Covid-19)

Os nad yw'n fwiad gan Fyfyriwr symud i'w llety hyd nes ar ôl diwrnod cyntaf y Cyfnod Preswyllo, rhaid i'r Myfyriwr hysbysu'r Swyddfa Neuaddau ymlaen llaw trwy e-bostio Neuaddau@bangor.ac.uk a rhoi rhyw syniad o'r dyddiad y mae'n disgwyl cyrraedd.

Bydd y Brifysgol yn cadw llety am hyd at 4 wythnos o ddechrau'r Cyfnod Preswyllo cyhyd â bod y Myfyriwr wedi talu'n llawn am y Cyfnod Preswyllo cyfan neu wedi sefydlu taliad rheolaidd trwy awdurdod cerdyn talu trwy <https://apps.bangor.ac.uk/payment/thirdparty/> ac wedi talu am 4 wythnos gyntaf y Cyfnod Preswyllo o leiaf.

Os nad yw Myfyriwr wedi cytuno ar ddyddiad i gyrraedd yn hwyr, a heb gyrraedd o fewn 4 diwrnod i ddechrau'r Cyfnod Preswyllo, bydd y Brifysgol yn gwneud ymdrechion rhesymol i gysylltu â'r Myfyriwr.

Ni chaiff llety ei gadw i hwyrddyfodiaid am gyfnod amhenodol. Os nad yw'r Myfyriwr wedi cyrraedd neu heb wneud trefniadau i gyrraedd yn hwyr o fewn 7 diwrnod i ddechrau'r Cyfnod Preswyllo, gall y Brifysgol ganslo'r contract (ond nid oes rheidrydd iddi wneud hyn). Mewn achosion o'r fath, ni fydd y Brifysgol yn ad-dalu'r blaendal (ond caiff unrhyw Rent ychwanegol a dalwyd gan y Myfyriwr ei rannu ar sail ddyddiol a'i ad-dalu am unrhyw ran sydd heb ddarford o'r Cyfnod Preswyllo). Os penderfyna'r Brifysgol beidio â chanslo contract preswyllo Myfyriwr, bydd y Myfyriwr yn parhau'n atebol am y Rhent hyd ddiwedd y Cyfnod Preswyllo (neu, os yn gynharach, hyd nes y bydd y Brifysgol wedi ail-osod y llety).

Rhaid i unrhyw Fyfyriwr sydd wedi archebu llety ond na fydd yn astudio ym Mhrifysgol Bangor hysbysu'r Swyddfa Neuaddau drwy e-bostio Neuaddau@bangor.ac.uk cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Cyn belled â bod unrhyw Fyfyriwr o'r fath yn hysbysu'r Swyddfa Neuaddau o leiaf 7 diwrnod cyn dechrau'r Cyfnod Preswyllo, bydd y Brifysgol yn cytuno i ganslo'r contract ac ad-dalu'r blaendal. Ni fydd y Brifysgol yn ad-dalu blaendaliadau pan ddaw'r hysbysiad yn hwyrach na hyn, ond bydd yn canslo'r contract ac ni fydd y Myfyriwr yn atebol am dalu unrhyw Rent pellach.

2.4 Hysbysu'r Brifysgol os bydd yn cyrraedd yn hwyr (mewn perthynas â Covid-19)

Os yw'r Myfyriwr yn cael ei atal rhag teithio i'r Llety i ddechrau ei denantiaeth ar yr adeg y bwriadai wneud hynny oherwydd bod rheoliadau Covid-19 y llywodraeth yn gwahardd hynny, yna gall y Myfyriwr ohirio dechrau'r denantiaeth am hyd at 12 wythnos. Mae'r amodau canlynol yn y cymal 2.4 hwn yn berthnasol.

Rhaid i'r Myfyriwr roi gwybod i'r Brifysgol cyn gynted ag sy'n ymarferol os yw'r Myfyriwr yn cael ei atal rhag teithio i'r Llety ar yr adeg y bwriadai wneudd hynny.

Os mai'r rheswm y mae'r Myfyriwr yn cael ei atal rhag teithio yw er mwyn cydymffurfio â rheoliadau yng Nghymru neu mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig y mae'n rhaid i'r Myfyriwr deithio drwyddo, ni fydd yn rhaid i'r Myfyriwr dalu Rhent tra bydd y rheoliadau hynny'n parhau i atal y Myfyriwr rhag Teithio.

Os yw'r Myfyriwr yn cael ei atal rhag teithio oherwydd rheoliadau sy'n berthnasol y tu allan i'r Deyrnas Unedig, bydd angen i'r Myfyriwr ddarparu tystiolaeth yn Saesneg neu Gymraeg (megis nodyn meddyg neu fanylion y rheoliadau a oedd yn berthnasol yn y wlad y daw'r Myfyriwr ohoni neu yr oedd angen i'r Myfyriwr deithio trwyddi) neu codir Rhent o hyd ar y Myfyriwr o'r dyddiad yr oedd y denantiaeth i fod i ddechrau.

Os yw'r myfyriwr yn dal i fethu â theithio i'r llety 12 wythnos ar ôl i'r denantiaeth ddechrau, gall y myfyriwr ganslo ei gontract llety drwy hysbysu'r Brifysgol yn ysgrifenedig (gan gynnwys e-bost).

2.5 Gohirio dechrau'r flwyddyn academiaidd oherwydd Covid-19 (2020/21 yn unig)

Efallai y bydd y Brifysgol yn cychwyn rhai cyrsiau yn hwyrach na'r arfer. Gwneid hyn er mwyn galluogi pobl i gydymffurfio â rheoliadau a chanllawiau sy'n ymwneud â theithio a chadw pellter corfforol yn ystod y pandemig Covid-19.

Yn yr amodau a thelerau hyn mae **Dyddiad Dechrau Targed** yn golygu dydd Sul 27 Medi 2020 a **Dyddiad Dechrau Gohiriedig** yn golygu unrhyw ddyddiad diweddarach y bydd y Brifysgol yn ei nodi fel diwrnod cyntaf y Cyfnod Preswyllo os bydd y Brifysgol yn gohirio dechrau'r flwyddyn academaidd oherwydd Covid-19.

Os na fydd y Brifysgol yn gohirio dechrau'r flwyddyn academaidd, bydd yr holl Gyfnodau Preswyllo yn dechrau ar y Dyddiad Dechrau Targed.

Ni fydd y Brifysgol yn gallu nodi ar adeg ymrwymo i'r contract beth fydd unrhyw Ddyddiad Dechrau Gohiriedig, ond bydd y Brifysgol yn hysbysu'r Myfyriwr o leiaf 14 diwrnod cyn y Dyddiad Dechrau Targed os yw dechrau'r flwyddyn academaidd yn cael ei ohirio.

Os yw'r Cyfnod Preswyllo yn dechrau ar y Dyddiad Dechrau Targed bydd y Myfyriwr yn atebol i dalu Rhent o'r Dyddiad Dechrau Targed, ac eithrio unrhyw gyfnod dilys o ohirio gan y Myfyriwr fel y caniateir o dan gymal 2.4. Bydd Cyfnod Preswyllo'r Myfyriwr yn dod i ben fel y nodwyd yn y Cynnig.

Os yw'r Cyfnod Preswyllo yn dechrau ar y Dyddiad Dechrau Gohiriedig bydd y Myfyriwr yn atebol i dalu Rhent o'r Dyddiad Dechrau Gohiriedig perthnasol, ac eithrio unrhyw gyfnod dilys o ohirio gan y Myfyriwr fel y caniateir o dan gymal 2.4. Os bydd y Brifysgol yn hysbysu'r Myfyriwr o Ddyddiad Dechrau Gohiriedig, bydd y Brifysgol yn cadarnhau bryd hynny a fydd Cyfnod Preswyllo'r Myfyriwr yn dod i ben ar y dyddiad a nodir yn y Cynnig neu ar ryw ddyddiad diweddarach. Ni fydd hyd Cyfnod Preswyllo Gohiriedig yn hwy na'r hyd a nodir yn y Cynnig.

Bydd y Brifysgol yn gallu darparu llety i rai myfyrwyr ar ôl diwedd eu tenantiaeth, ond bydd angen i fyfyrwyr sydd eisiau wythnosau ychwanegol wneud cais yn ystod eu tenantiaeth. Byddai wythnosau ychwanegol yn amodol ar argaeledd y llety, a gallai fod mewn neuadd wahanol i'r un yr oedd y Myfyriwr yn byw ynddi yn ystod ei denantiaeth.

2.6 Gwirio cynnwys y llety a rhoi gwybod i'r Brifysgol am unrhyw ddiffyg o fewn 7 diwrnod o gyrraedd

Bydd y Cynnwys yn amrywio yn ôl math yr ystafell, ond bydd yr holl ystafelloedd yn cynnwys

Gwely	Desg	Cwpwrdd dillad
Cadair	Llenni neu fleind	Bin sbwriel
Gorchudd llawr	Golau	

Dylai pob Myfyriwr wirio cynnwys y llety ar ddechrau'r Cyfnod Preswyllo. Ceir hysbysiad yn y llety sy'n rhestru cynnwys y llety. Cyfrifoldeb y Myfyriwr yw gwirio'r cynnwys a dweud wrth y Brifysgol am unrhyw eitem sydd ar goll neu am ddifrod o fewn 7 diwrnod.

Bydd y Brifysgol yn archwilio'r llety ar derfyn y Cyfnod Preswyllo a bydd yn hawlio gan y Myfyriwr gostau priodol adfer unrhyw ddifrod (ac eithrio traul arferol) neu ddiffyg oni ddwedwyd am yr anghysondeb o fewn 7 diwrnod i gasglu'r allweddi.

OS NA FYDD MYFYRIWR YN RHOI GWYBOD I'R BRIFYSGOL AM UNRHYW ANGHYSONDEB AR Y DECHRAU GALL Y MYFYRIWR EI CHAEL YN ANODD PROFI NAD YW'N ATEBOL AM

UNRHYW DDIFROD NEU EITEMAU Y GWELIR EU BOD AR GOLL PAN DDAW'R BRIFYSGOL I ARCHWILIO'R LLETY. Rydym yn argymhell bod Myfyrwyr yn cadw copi o unrhyw adroddiad y maent yn ei anfon.

2.7 Cadw'r Llety, y Cynnwys ac (ar y cyd â Myfyrwyr eraill) y Mannau Cyffredin yn lân a thaclus a'u gadael yn lân a thaclus ar ddiwedd y Cyfnod Preswyllo

Mae pob Myfyriwr yn gyfrifol am gadw ei ystafell ei hun yn lân ac yn daclus. Mae Myfyrwyr mewn ystafelloedd en-suite, stiwdios a thai tref hefyd yn gyfrifol am lanhau eu hystafell gawod eu hunain.

Mae pob Myfyriwr yn gyfrifol am lanhau a thacluso wedi iddynt ddefnyddio'r Mannau Cyffredin. Mae hyn yn cynnwys golchi a chadw unrhyw offer a ddefnyddiwyd, a glanhau unrhyw beth a gollwyd ar y cownteri, y popty neu'r llawr neu yn yr oergell neu'r popty. Rhaid i Fyfywyr sy'n rhannu ystafell ymolchi ei gadael yn lân ac yn daclus ar ôl ei defnyddio.

Mae'r Brifysgol yn trefnu bod y Mannau Cyffredin yn cael eu glanhau'n rheolaidd ond ni fydd glanhawyr yn golchi llestri nac yn tacluso ar ôl Myfyrwyr. Dylai Myfyrwyr sy'n byw mewn tŷ tref ym Mhentref y Santes Fair nodi mai eu cyfrifoldeb nhw yw glanhau eu hystafelloedd ymolchi eu hunain.

Darperir sugnwr llwch ym mhob cegin a rennir gan Fyfywyr.

Os nad yw'r Myfyriwr yn cadw'r Llety (ar y cyd â myfyrwyr eraill y Mannau Cyffredin) yn lân ac yn daclus fel sy'n ofynnol yn ôl yr amodau hyn, yna bydd y Brifysgol yn:

- (a) cyflwyno rhybudd i'r Myfyriwr yn gofyn iddo unioni pethau ymhen wythnos. Os, wedi archwiliad pellach, na chafwyd gwelliant, gall y Brifysgol ddefnyddio glanhawyr proffesiynol i wneud yr hyn y dylasai'r Myfyriwr fod wedi ei wneud a hawlio cost briodol am wneud hynny (gan gynnwys ffi weinyddol) gan y Myfyriwr (neu grŵp o Fyfywyr yn achos Mannau Cyffredin os nad un person sy'n gyfrifol). Os bydd unrhyw Fyfyriwr yn teimlo i'r Brifysgol hawlio arian ganddynt yn annheg, gall gwyno i'r Swyddfa Neuaddau; a/neu
- (b) peidio â darparu gwasanaethau glanhau, heb ad-dalu'r Rhent, hyd nes bod cyflwr y Llety neu'r Mannau Cyffredin yn gwella nes bodloni'r Brifysgol.

Os gwyddys fod unrhyw Fyfyriwr/Fyfywyr yn torri'r amod hwn yn gyson, gellir trin y mater fel mater disgyblu. Dan yr amodau hyn, gall torri'r amodau'n gyson arwain at ddirwyon disgyblu a/neu derfynu contract y Myfyriwr wrth ddilyn Polisi'r Brifysgol ar Addasrwydd i Breswyllo <https://www.bangor.ac.uk/accommodation/essential.php.cy>

Rhaid gadael y Llety a'r Mannau Cyffredin yn lân a thaclus ar ddiwedd y Cyfnod Preswyllo. Oni adewir y Llety a'r Mannau Cyffredin yn lân a thaclus, hawli'r gan y myfyriwr (Myfyrwyr) sy'n gyfrifol amdanynt gostau priodol a rhesymol glanhau'r Llety (a chyfran o gostau glanhau Mannau Cyffredin).

Ar ddiwedd y Cyfnod Preswyllo neu os terfynir y denantiaeth yn gynharach, bydd y Brifysgol yn cymryd o'r Llety unrhyw eitemau nad ydynt yn rhan o'r Cynnwys, ac oni bai bod yr eitem yn amlwg yn werthfawr, yn eu gwaredu yn syth.

Cedwir eitemau eraill gan y Brifysgol am gyfnod o 7 diwrnod, ac wedi hynny [gall y Brifysgol waredu'r eitemau hyn yn ôl eu doethineb](#). Os bydd y Brifysgol yn gwerthu'r eitemau, bydd y Brifysgol yn tynnu o elw unrhyw werthiant fel iawndal penodedig a mesuredig ffioedd storio rhesymol, £10 o ffi weinyddol, a (lle bo'n briodol) fel iawndal cyffredinol gostau defnyddio asiant olrhain i ddod o hyd i'r Myfyriwr. Bydd y Brifysgol yn defnyddio'r gweddill i wneud iawn am unrhyw ddyled sy'n ddyledus gan y Myfyriwr i'r Brifysgol. Bydd y Brifysgol yn anfon unrhyw arian dros ben ymlaen at y Myfyriwr (cyn

belled â bod y swm yn £10 o leiaf). Os na fydd modd dod o hyd i'r Myfyriwr (ar ôl gwneud ymdrech rhesymol), neu os yw'r swm sydd dros ben yn llai na £10, anfonir yr elw at elusen.

2.8 Peidio â symud, gosod na newid dim yn y Llety, yn y Mannau Cyffredin nac yn yr Adeilad neu'r Cynnwys na difrodi na cheisio trwsio'r adeiladwaith neu'r gorffeniad addurnol

Dylid dweud am unrhyw ddifrod damweiniol neu fel arall wrth y Swyddfa Neuaddau ar unwaith. Mae'n annhebygol yr edrychir ar ddifrod a achosir oherwydd esgeulustod neu ddiolfalwch fel difrod damweiniol.

Bydd y Brifysgol yn hawlio cost briodol gan y Myfyriwr am unioni'r difrod neu'r golled a gall hynny gynnwys cost amser staff am orfod trefnu adnewyddu neu drwsio. Ceir rhestr o'r symiau arferol a hawlir am ddifrod (nad yw'n rhestr gyflawn) ar ddiwedd yr amodau hyn.

Os yw'r Brifysgol yn rhesymol ystyried bod y difrod yn fwriadol, diofal neu'n esgeulus dros ben, gall y Brifysgol drin y mater fe mater disgyblu yn ogystal â hawlio am gost adnewyddu neu drwsio. Mewn achosion difrifol neu gyson, gall y Brifysgol hefyd derfynu contract y Myfyriwr wrth ddilyn Polisi'r Brifysgol ar Addasrwydd i Breswyllo sydd ar gael yn <https://www.bangor.ac.uk/accommodation/essential.php.cy>

Nid yw'r rhestr isod yn gyflawn, ond y mae'n amlinellu'r mathau o ddifrod sy'n digwydd amlaf, ac y dylai Myfyrrwyr geisio ei osgoi:

- ffrio dwfn mewn olew
- arddangos sticeri, hysbysiadau, negeseuon ac ati ar waliau a'r drysau; dylai Myfyrrwyr ddefnyddio hysbysfyrddau yn unig at y diben hwn
- defnyddio tâp gludiog neu sticeri ar arwynebau wedi eu haddurno
- defnyddio sugnwr llwch i lanhau hylif o'r llawr
- marcio dodrefn – dylid symud dodrefn yn ofalus, gan geisio osgoi sgriffiadau, a chymryd gofal gyda hylifau a chwistrellau
- marcio gorchuddion lloriau – haearnau smwddio, olew, gwin ac ati
- gosod paent, staen, stensiliau neu bapur wal
- achosi rhwystr yn unrhyw bibelli neu ddraeniau
- peidio â gwneud yn siŵr fod llen y gawod wedi ei gosod yn iawn y tu mewn i gafn y gawod
- hongian eitemau o'r nenfwd
- sychu dillad yn unman lle nad oes awyru digonol
- sychu dillad ar wresogydd yr ystafell (mae hyn yn achosi perygl tân)
- newid y llenni

Ni ddylai Myfyrrwyr osod, na threfnu i eraill osod, unrhyw gebl, erial, dysgl lloeren na chyfarpar arall (gan gynnwys llinellau ffôn) yn unrhyw ran o'r Adeilad.

2.9 Os ceir difrod neu golled yn y Llety ac os nad oes modd i'r Brifysgol (trwy weithredu'n rhesymol) ddarganfod pwy sydd ar fai, talu cyfran deg a rhesymol o'r iawndal sy'n ddyledus i'r Brifysgol am drwsio neu wneud yn iawn am y golled

Mae hyn yn fwyaf tebygol o ddigwydd yn y Mannau Cyffredin y tu mewn i'r Adeilad. Os oes difrod yn digwydd y tu allan i'r Adeilad, ac mai barn resymol y Brifysgol yw nad Myfyrrwyr a'i hachosodd, bydd y Brifysgol yn trin y difrod fel cais yswiriant lle bo modd.

Os tybia unrhyw Fyfyriwr yn rhesymol na ddylid hawlio iawndal ganddo (er enghraifft, pan allant brofi eu bod i ffwrdd ar y pryd) gallant gyflwyno eu gwrthwynebiad i'r Swyddfa Neuaddau yn y lle cyntaf. Os cadarnheir y gwrthwynebiad, gall hyn olygu y bydd cyfran fwy o iawndal yn cael ei hawlio gan y myfyrrwyr eraill.

2.10 Dweud wrth y Brifysgol am unrhyw ddifrod neu ddiffyg trwsio neu fethiant yn y Gwasanaethau o fewn 24 awr o ddod yn ymwybodol ohono

Dylid rhoi gwybod i'r Swyddfa Neuaddau am unrhyw ddifrod ac am unrhyw beth sydd angen ei drwsio. Cyngorir myfyrwyr yn eu llawlyfr gwybodaeth ar-lein sut i adrodd am faterion cynnal a chadw. Os digwydd mwy o ddifrod o ganlyniad i fethiant Myfyriwr i grybwyll bod angen trwsio rhywbeth, gall y Brifysgol geisio adennill cost y difrod hwnnw gan y Myfyriwr. Nid oes rheidrwydd ar y Brifysgol i wneud gwaith trwsio nad oedd yn ymwybodol ohono, ac na allai'n rhesymol fod wedi gwybod amdano, hyd nes y ceir hysbysiad.

Bydd y Brifysgol yn ymdrin â diffygion ar sail blaenoriaeth, ac yn gwneud gwaith trwsio cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

Nid yw'r Brifysgol yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod neu anghyfleustra (megis colli data neu fod bwyd yn dadmer, diffyg gwres neu ddŵr poeth) sy'n deillio o doriad yn y cyflenwad trydan neu ddŵr, neu sy'n codi o fethiant cyfarpar, onid achoswyd hyn gan esgeulustod y Brifysgol neu ei methiant i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau yn yr amodau hyn.

2.11 Peidio â gwneud unrhyw beth a allai beri difrod i osodiadau neu gyfarpar trydanol yn y Llety.

Rhaid i fyfyrwyr ofalu, os ydynt yn dod ag unrhyw gyfarpar trydanol gyda nhw, eu bod yn llai na 12 mis oed neu wedi pasio'r Prawf Offer Cludadwy yn ddiweddar. Bydd y Brifysgol yn cynnal y prawf hwn i Fyfyrrwyr **am ddim** os gofynnir.

Dim ond cyfarpar watedd isel y gall Myfyrwyr eu defnyddio yn y Llety. Enghreifftiau o gyfarpar o'r fath fyddai setiau radio, systemau cerdd cludadwy, gliniaduron, tabledi, cyfrifiaduron personol, argraffyddion, gwefrwyrr ffôn, setiau teledu. Ac eithrio sychwyr gwallt llaw, ni chaniateir offer watedd uchel (megis offer pŵer, unedau aerdymheru cludadwy, tegelli ac offer cynhyrchu gwres eraill).

Ni ddylai myfyrwyr ddod ag unrhyw offer gwresogi ychwanegol i'r adeilad.

Mae'r Brifysgol yn darparu offer coginio yn y ceginau. Gall Myfyrwyr hefyd ddefnyddio eu hoffer coginio eu hunain yn y ceginau, cyhyd â'u bod wedi eu prynu yn y Deyrnas Unedig a'u bod yn addas i'w defnyddio gyda chyflenwad trydan y Deyrnas Unedig. Gall Myfyrwyr ddefnyddio poptai reis a brynwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig, ond dim ond mewn ceginau sydd ag addasydd cymeradwy.

Ni chaiff Myfyrwyr dan unrhyw amgylchiadau ddefnyddio offer coginio megis platiau poeth cludadwy, ffrïwyr saim dwfn neu stofiau gwersylla yn unrhyw ran o'r Adeilad gan fod hynny yn achosi perygl tân difrifol.

Ni chaiff Myfyrwyr defnyddio addasydd plwg 2-ffordd a 3-ffordd. Ni chaiff Myfyrwyr ddefnyddio ceblau estyniad mewn ystafelloedd ymolchi nac mewn ceginau. Gellir defnyddio ceblau estyniad a ddarparwyd yn y Deyrnas Unedig mewn ystafelloedd gwely ond ni chaiff fod yn hwy na 3 metr o hyd ac ni all fod â mwy na 4 soced. Rhaid bod iddynt ddull o warchod rhag ymchwydd trydanol a rhaid peidio â'u llwytho y tu hwnt i'w mesur trydanol cymeradwy. Rhaid i bob cebl estyniad dros 12 mis oed gael Prawf Offer Cludadwy (bydd y Brifysgol yn cynnal y prawf hwn i Fyfyrrwyr am ddim os gofynnir). Dylai ceblau fod yn ddigon hir ar gyfer y dasg; rhaid peidio â'u tynnu'n dynn na'u cysylltu â'i gilydd. Rhaid gofalu na fydd y cebl yn berygl i unrhyw un faglu drosto a rhaid peidio â'i orchuddio â dillad neu unrhyw beth arall a allai achosi i'r cebl orboethi. Bydd y Brifysgol yn rhoi cyngor i'r Myfyriwr os gwneir cais os yw'r Myfyriwr yn ansicr a yw cebl estyniad yn addas ar gyfer y defnydd a fwriadwyd.

Mae'n rhaid i addasyddion teithio rhyngwladol a ddefnyddir yn yr Adeilad fod â ffiws 13amp ac wedi'u gwneud yn Ewrop, ac yn dangos nod barcod y CE yn ddelfrydol. Mae'r addasyddion rhyngwladol priodol ar gael i'w prynu o'r Swyddfa Neuaddau agosaf.

Dim ond os ydynt wedi cael caniatâd ysgrifenedig gan y Swyddfa Neuaddau y caiff Myfyrwyr ddefnyddio oergelloedd a rhewgelloedd personol yn y Llety. Ni wrthodir yn afresymol os oes angen yr offer am resymau meddygol.

Ni ddylai Myfyrwyr ddod â pheiriannau golchi llestri, peiriannau golchi dillad na'u peiriant sychu dillad eu hunain i adeiladau'r Brifysgol.

Mae Myfyrwyr yn cytuno y gall y Brifysgol wirio cyfarpar trydanol Myfyrwyr wrth archwilio ystafelloedd. Os yw'r Brifysgol yn credu'n rhesymol bod unrhyw gyfarpar yn anniogel, rhaid i'r Myfyriwr ddarparu'r fath dystiolaeth ag y bydd ar y Brifysgol ei hangen yn rhesymol sy'n dangos fod yr eitem yn ddiogel i'w defnyddio mewn llety myfyrwyr neu adael i'r Brifysgol ei harchwilio. Gall y Brifysgol fynd ymaith â chyfarpar trydanol anniogel neu sydd heb ei brofi, ond bydd yn rhoi derbynneb i'r Myfyriwr amdano a gellir ei gasglu ar derfyn y Cyfnod Preswyllo.

2.12 Caniatáu i'r Brifysgol ar adegau rhesymol ddod i'r Llety at ddibenion archwilio, glanhau, gwneud gwaith cynnal a chadw, trwsio neu gynnal ymweliadau

Ni fydd y Brifysgol fel rheol yn archwilio ystafelloedd fwy nag unwaith bob semester. Bydd y Brifysgol yn rhoi rhybudd rhesymol ymlaen llaw i Fyfyriwr mewn e-bost pan fwriedir archwilio ystafelloedd. Dylai Myfyrwyr fod yn ymwybodol ei bod yn annhebygol y bydd yn ymarferol rhoi rhybudd pan mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw neu drwsio.

Trwy wneud cais cynnal a chadw mae'r Myfyriwr yn cytuno i'r Brifysgol fynd i mewn i'r Llety i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio. Dyma pam y dylai Myfyrwyr roi gwybod am waith cynnal a chadw angenrheidiol ac am ddifrod eu hunain yn hytrach na gofyn i Fyfyriwr arall neu i riant wneud y cais ar eu rhan. Disgwylir i fyfyrwyr sicrhau bod eu hystafell mewn cyflwr gweddol daclus heb unrhyw geblau hyd y llawr a digon o le clir er mwyn i gonacontractwyr a staff y Brifysgol fedru gweithio mewn amgylchedd diogel.

Rhaid i fyfyrwyr hefyd ganiatáu mynediad i gonacontractwyr awdurdodedig y Brifysgol.

Mae'n ddyletswydd ar y Brifysgol i redeg y dŵr am gyfnod o 5 munud yn unrhyw ystafell wag o leiaf unwaith pob 7 diwrnod er mwyn sicrhau hylendid dŵr. Rhaid i Fyfyriwr ddweud os bwriadant fod yn absennol am 7 diwrnod neu ragor, fel y nodir yn y llyfryn gwybodaeth ar-lein. Mae hyn yn arbennig o debygol yn ystod gwyliau'r Nadolig a gwyliau'r Pasg ond gallai hefyd fod yn berthnasol os yw'r Myfyriwr yn gadael Bangor ar leoliad gwaith estynedig neu'n mynd adref oherwydd salwch. Rhaid hysbysu'r Brifysgol am unrhyw absenoldeb o fwy na 7 diwrnod na chafodd ei gynllunio cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gan wneud hynny ar-lein trwy 'Adrodd eich absenoldeb'.

2.13 Peidio â gwneud dim a all fod yn berygl tân neu mewn unrhyw ffordd arall beryglu iechyd a diogelwch pobl eraill neu eiddo'r Brifysgol

Rhaid i bob Myfyriwr gwblhau'r modiwl cynefino ar-lein cyn cyrraedd neu cyn gynted ag y gofynnir iddo wneud hynny. Bydd y Brifysgol yn ystyried peidio â chwblhau'r modiwl cynefino fel achos difrifol o dorri'r amodau hyn.

Rhaid i'r Myfyriwr gydymffurfio ag ymarferion tân y Brifysgol, a gynhelir fel rheol o leiaf unwaith bob semester.

Caiff Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol ei amlinellu yn Llawlyfr Myfyrwyr Prifysgol Bangor a dylai Myfyrwyr ymglyfarwyddo ag ef. Os bydd Myfyriwr yn torri'r Polisi Iechyd a Diogelwch, bydd y Brifysgol fel rheol yn trin hyn fel achos difrifol o dorri'r amodau hyn.

Yn 2020/21 gall y Brifysgol o bryd i'w gilydd gyflwyno polisïau neu ganllawiau ychwanegol ar gyfer amddiffyn staff a myfyrwyr yn ystod y pandemig coronafeirws. Rhaid i fyfyrwyr gydymffurfio â pholisïau a chanllawiau o'r fath, yn ychwanegol at unrhyw reoliadau neu ganllawiau cymwys a gyhoeddir gan lywodraeth Cymru neu'r Deyrnas Unedig.

Dangosir rhybuddion rhagofalon tân trwy'r Adeilad a dylai Myfyrwyr ymgyswrtu â'r drefn o adael mewn argyfwng.

Mae perygl tân yn fater difrifol iawn mewn llety a rennir, lle mae nifer fawr iawn o bobl yn byw yn agos at ei gilydd. Gall achosi perygl tân fod yn drosedd ddisgyblaethol neu yn dor-cyfraith yn ogystal â thorri'r amodau hyn. Mae namau trydanol yn berygl diogelwch tân sylweddol, ac mae cymal 2.9 yn bwysig am resymau iechyd a diogelwch yn ogystal ag er mwyn osgoi difrod i'r Adeilad.

Damweiniau neu esgeulustod, yn hytrach na gweithred fwriadol neu ddi-hid, sydd fel rheol yn achosi tanau. Mae enghreifftiau o'r pethau mwyaf tebygol i achosi tân yn cynnwys defnyddio:

- canhwyllau, lampau olew, aroglarth, paraffin, hylif tanwyr neu unrhyw hylif hylosg arall – ni ddylai Myfyrwyr losgi unrhyw beth â fflam agored yn yr adeilad
- tân gwyllt – ni ddylai Myfyrwyr ddefnyddio na chadw tân gwyllt yn yr adeilad nac ar y campws
- ysmegu – ni chaiff Myfyrwyr ysmegu yn unman yn adeiladau'r Brifysgol, nac o fewn 5 metr i unrhyw un o adeiladau'r Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys y Llety. Ni chaniateir defnyddio e-sigarennau yn adeiladau'r Brifysgol ychwaith.
- posteri – rhaid i Fyfyrwyr beidio ag arddangos y rhain yn unman ond ar yr hysbysfyddau - gallant fynd ar dân os ydynt yn agos i ffynhonnell gwres, a gall tân ledaenu'n gyflym o bapur sy'n llosgi.
- sosbenni sglodion/ffriwyr saim dwfn – rhaid peidio â defnyddio'r rhain o gwbl
- coginio heb fod yno i oruchwylio
- gadael cyfarpar trydanol i wefru heb oruchwyliaeth (gan gynnwys e-sigarennau, gliniaduron, ffonau symudol ac ati)
- stemar dillad

Rhaid i Fyfyrwyr beidio â:

- rhwystro drysau tân neu lwybrau dianc rhag tân
- osod unrhyw beth i ddal drysau yn agored
- ymyrryd â chyfarpar ymladd tân neu synwryddion tan heb reswm da
- seinio'r larwm tân heb reswm da

Rhaid i fyfyrwyr hysbysu'r Swyddfa Neuaddau a chael cymeradwyaeth cyn dod ag unrhyw ddodrefn ychwanegol y maent yn dymuno dod â nhw i'r Adeilad. Bydd angen asesu'r holl ddodrefn ychwanegol ar gyfer cydymffurfiaeth â rheoliadau tân yn ogystal a pha mor addas ydynt i'r lle sydd ar gael yn y Llety. Bydd gofyn i'r Myfyriwr gael gwared ar unrhyw ddodrefn nad ydynt wedi eu cymeradwyo gan y Swyddfa Neuaddau, felly fe'ch cynghorir i sicrhau bod cymeradwyaeth yn cael ei chofnodi'n ysgrifenedig.

Rhaid i Fyfyrwyr sicrhau eu bod yn diffodd pob gwefrwr ffôn a chyfarpar tebyg pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Os bydd Myfyriwr yn mynd yn groes i rwymedigaethau iechyd a diogelwch bydd y Brifysgol yn trin hyn fel achos difrifol o dorri'r amodau hyn. Bydd y Brifysgol yn trin y mater fel achos disgyblu, a gall gymryd camau mewn achosion difrifol i derfynu tenantiaeth y Myfyriwr drwy ddilyn Polisi'r Brifysgol ar Addaswydd i Breswyllo y gellir dod o hyd iddo yn <https://www.bangor.ac.uk/accommodation/essential.php.cy> Os oes gan y Brifysgol reswm i gredu bod y Myfyriwr wedi cyflawni trosedd, bydd y Brifysgol yn cyfeirio'r mater at yr awdurdodau.

Bydd y Brifysgol yn hawlio gan y Myfyriwr fel iawndal gostau rhesymol y Brifysgol i wirio, ailosod a phrofi'r cyfarpar diogelwch tân wedi iddynt gael eu defnyddio heb reswm da. Os nad yw'n hysbys pwy oedd yn gyfrifol am seinio'r larwm, bydd y costau'n cael eu trin fel hawliad am daliad iawndal ar y cyd o dan amod 2.7.

Mater o synnwyr cyffredin ac o ystyried eraill, i raddau helaeth, yw iechyd a diogelwch. Yn ychwanegol at y rhagofalon tân, fe welir isod restr – nad yw'n gyflawn – o bethau a fyddai'n debyg o beryglu iechyd a diogelwch eraill, neu eiddo'r Brifysgol:

- gemau pêl ger adeiladau neu mewn meysydd parcio
- "slacklining" neu ddringo'r adeiladau neu ddringo allan o ffenestri
- barbeciwiau heblaw am y mannau sydd wedi'u dynodi gan y Brifysgol
- cyfarpar trydanol diffygiol neu orlwytho'r gosodiadau trydan
- niwsans sŵn cyson
- aflonyddu
- bygythiadau neu ddifenwi geiriol
- partïon
- anifeiliaid anwes (heblaw am anifail cymorth wedi eu hyfforddi)
- hongian o ffenestri neu daflu pethau allan ohonynt
- gadael ffenestr ar agor mewn gwyntoedd cryf
- ysmegu yn yr adeiladau neu o fewn 5 metr i unrhyw un o adeiladau'r Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys e-sigarennau.
- storio offer chwaraeon mawr mewn ystafelloedd gwely neu goridorau - h.y. caiacau, byrddau syrffio, beiciau ac ati
- bragu

Ni chaiff myfyrrwyr ddod ag unrhyw arf nac arf ffug (nac eitem y gellir ei ddefnyddio felly) i mewn i eiddo'r Brifysgol, hyd yn oed os oes gan y Myfyriwr drwydded ar ei gyfer. Os oes gan Fyfyriwr eitem o'r fath bydd y Brifysgol yn gofyn i'r Myfyriwr ei gyflwyno er mwyn ei chadw'n ddiogel neu ei drosglwyddo i'r awdurdodau. Oni bai fod yr heddlu wedi cymryd yr eitem bydd y Brifysgol yn rhoi derbynneb i'r Myfyriwr fel y gall ei chael yn ôl ar ddiwedd y Cyfnod Preswyllo. Gall y Brifysgol ddweud wrth yr heddlu fod gan rywun arfau neu arfau ffug neu eitemau eraill y gellir eu defnyddio felly, a gall roi unrhyw eitem iddynt a ildwyd gan Fyfyriwr (ac os felly, ni fydd rheidrwydd ar y Brifysgol i'w dychwelyd i'r Myfyriwr ar ddiwedd y Cyfnod Preswyllo). Bydd y Brifysgol yn ystyried peidio â chydymffurfio â'r amod hwn fel achos difrifol o dorri contract y Myfyriwr.

Ni chaiff Myfyrrwyr ddod â chyffuriau anghyfreithlon na sylweddau seicoweithredol anghyfreithlon i'r Adeilad nac i unrhyw ran o gampws y Brifysgol. Bydd y Brifysgol bob amser yn dweud wrth yr heddlu os oes ganddynt amheuaeth resymol neu yn dysgu am feddiant, defnydd, cyflenwi a delio mewn cyffuriau neu sylweddau seicoweithredol anghyfreithlon ac fel rheol yn trin ymddygiad sy'n ymwneud â chyffuriau adloniant fel achos difrifol o dorri contract y Myfyriwr. Bydd y Brifysgol yn trin camddefnyddio sylweddau a defnyddio sylweddau seicoweithredol fel defnydd o gyffuriau anghyfreithlon.

Rhaid i'r Brifysgol ystyried unrhyw anabled y gall Myfyriwr fod yn dioddef ohono ac sy'n berthnasol i ymddygiad y Myfyriwr, wrth benderfynu a dorrwyd yr amodau hyn yn ddifrifol neu'n gyson, neu wrth benderfynu a ddylid cymryd camau disgyblu.

Gall y Brifysgol gadw mewn cof y defnydd o alcohol neu gyffuriau anghyfreithlon wrth asesu a dorrwyd yr amodau hyn yn ddifrifol neu'n gyson, ond dim ond fel ffactorau gwaethybol, nid fel rhai lliniarol.

Rhaid i Fyfyrrwyr gloi drws eu Llety pan adawir ef yn wag, ac, os yw'r Llety ar y llawr isaf, rhaid cloi'r ffenestri hefyd. Mae Myfyrrwyr yn gyfrifol ar y cyd am gau ffenestri'r Mannau Cyffredin yn ddiogel ac am gau drysau cymunedol yn yr Adeilad.

Rhaid i Fyfyrrwyr gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau rhesymol a roddir gan staff y Brifysgol.

2.14 Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol i'r graddau y bo hyn yn angenrheidiol i atal gweithredoedd neu esgeulustod y Myfyriwr rhag cael effaith andwyol ar y Brifysgol neu ar berchenogion neu ddeiliaid eiddo cyfagos

Nid yw'r Brifysgol yn oedi cyn cyfeirio amheuaeth o ymddygiad troseddol at yr heddlu.

Mae ymddygiad troseddol gan Ffyriwr yn torri'r amodau hyn a gall hefyd fod yn drosedd ddisgyblu dan Reoliadau'r Brifysgol ar Ddisgyblaeth Myfyrrwyr.

Mae trosedd ddisgyblu dan Reoliadau'r Brifysgol ar Ddisgyblaeth Myfyrrwyr yn torri'r amodau hyn a gall arwain at derfynu contract preswyllo'r Myfyriwr.

Mae hawl gan y Brifysgol i hawlio gan y Myfyrrwyr iawndal am y colledion a ddaw i'w rhan o ganlyniad i'w hymddygiad, boed hwnnw'n ymddygiad troseddol neu fel arall sy'n torri'r amodau hyn neu Reoliadau'r Brifysgol ar Ddisgyblaeth Myfyrrwyr.

Mae'n bwysig i Ffyrrwyr gofio eu bod yn byw mewn cymuned a bod eu hymddygiad yn effeithio ar eraill. Rhan o addysg yw dysgu parchu ac ystyried eraill, a sylweddoli fod canlyniadau i bopeth a wnawn.

Mae gan bob un ohonom rai dyletswyddau a chyfrifoldebau dan gyfraith Cymru a Lloegr i ofalu nad ydym trwy ein gweithredoedd neu esgeulustod yn peri anaf i bobl eraill, nac yn difrodi eu heiddo, nac yn eu hatal rhag mynd ynglŷn â'u gwaith cyfreithlon. Golyga hyn, er enghraifft, na ddylai Myfyrrwyr wneud cymaint o sŵn nes peri niwsans i eraill, ni ddylent ddefnyddio eu Llety nac unrhyw ran arall o'r Adeilad mewn modd sy'n achosi perygl i eraill (er enghraifft gosod pethau trwm ar silliau ffenestri, a all ddisgyn ar ben pobl sy'n pasio heibio, neu ddefnyddio offer trydanol diffygiol), ac ni ddylent ymwneud â gweithgarwch troseddol.

Tra bo'r Brifysgol yn annog pob Myfyriwr i barchu'r gyfraith, nid oes a wnelo'r Brifysgol â methiant myfyrrwyr i gydymffurfio â deddfwriaeth lle bo hyn yn fater hollol breifat nad yw'n effeithio ar y Brifysgol nac ar Ffyrrwyr eraill. Er enghraifft, ni fyddai'r Brifysgol yn ystyried eich bod wedi torri eich cytundeb preswyllo petaech yn cael tocyn parcio yn y dref (er y gallech yn dechnegol fod wedi torri'r gyfraith) neu pe bai dyfarniad llys sirol yn eich erbyn am beidio â thalu i rywun ar wahân i'r Brifysgol.

2.15 Cydymffurfio â pholisïau, rheolau a rheoliadau'r Brifysgol a ddarparwyd yn flaenorol i'r Myfyriwr

Mae'r amodau hyn yn amlinellu cytundeb y Myfyriwr gyda'r Brifysgol, i'r graddau y mae a wnelo hynny â'u harhosiad yn llety'r brifysgol, a rhan yn unig ydynt o gontract y Myfyriwr gyda'r Brifysgol. Y mae gan y Myfyriwr rwymedigaethau eraill sy'n berthnasol i holl Ffyrrwyr y Brifysgol, nid yn unig y rhai mewn llety, a bydd torri'r rhwymedigaethau hynny'n cael ei drin fel torri'r amodau hyn.

Mae Rheoliadau'r Brifysgol ar Ddisgyblaeth Myfyrrwyr i'w gweld ar-lein yn <https://www.bangor.ac.uk/regulations/regulations/documents/BUReg13-2019v1.pdf> Mae polisïau'r Brifysgol ar iechyd a diogelwch, aflonyddu a Chyfle Cyfartal wedi eu cynnwys yn y Llawlyfr Myfyrrwyr ac maent ar gael ar-lein hefyd yn <https://my.bangor.ac.uk/handbook/content.php.cy?nid=13270>

2.16 Peidio ag achosi unrhyw niwsans, tramgwydd, na tharfu, aflonyddu nac ymyrryd yn gyson ag eraill

Rhaid i Ffyrrwyr ystyried trigolion eraill a rhaid iddynt beidio â gwneud unrhyw sŵn y gellir ei glywed o'r tu allan i'w hystafell neu o'r tu allan i'r gegin neu'r ystafell ymolchi a rennir, ac oherwydd hyn, ni

chaniateir i Fyfywrwr gael partïon yn eu Hadeilad nac ar dir eu Hadeilad. Bydd y Brifysgol yn trin sŵn a wneir rhwng 11.00pm a 7.00am fel niwsans sŵn difrifol. Bydd niwsans sŵn difrifol neu barhaus yn arwain at gymryd camau disgyblu, ac mewn rhai achosion at derfynnu tenantiaeth y Myfyriwr trwy ddilyn Polisi'r Brifysgol ar Addasrwydd i Breswyllo sydd i'w weld yn <https://www.bangor.ac.uk/accommodation/essential.php.cy>

Ni oddefir unrhyw niwsans sŵn o gwbl yn ystod y cyfnod arholiadau.

Y mae aflonyddu'n drosedd, a gall y Brifysgol gyfeirio achosion o aflonyddu at yr heddlu. Edrychir ar aflonyddu fel achos difrifol o dorri'r amodau hyn.

Rhaid i Fyfywrwr beidio â dosbarthu taflenni na hysbysiadau ar ran unrhyw sefydliad, masnachol neu fel arall, yn unrhyw ran o'r campws preswyl. Dylai Myfywrwr fod yn ofalus hefyd i beidio â gadael i unrhyw un ddod i mewn i'r Adeilad gyda'r bwriad o ddsbarthu taflenni. Bydd gan unrhyw un sydd â rheswm dilys dros ddod i mewn i'r Adeilad eisoes â modd o agor y drysau. Ni ddylai Myfywrwr fyth ganiatáu i neb eu dilyn i mewn trwy'r drysau am unrhyw reswm. Os creda Myfyriwr fod rhywun wedi cael mynediad heb awdurdod i un o adeiladau'r Brifysgol, dylai roi gwybod i'r Swyddfa Neuaddau neu i wasanaeth diogelwch 24 awr y Brifysgol cyn gynted â phosibl.

2.17 Peidio â dod ag unrhyw anifail i'r Llety oni bai ei fod wedi ei hyfforddi i fod yn gymorth i berson anabl

Gofynnir i fyfywrwr hysbysu'r Brifysgol ymlaen llaw os oes ganddynt anifail cymorth, gan y bydd yn rhaid i'r Brifysgol, efallai, wneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer (megis gwneud yn siŵr nad oes neb ag alergedd i flew anifeiliaid nac unrhyw un y mae arnynt ofn cŵn yn byw yn yr un fflat).

Os oes gan Fyfyriwr anifail cymorth yn ei Adeilad, mae'r Myfyriwr hwnnw yn gyfrifol am les ac ymddygiad yr anifail, ac am atgyweirio, adnewyddu neu lanhau yn ôl y gofyn o ganlyniad i'r anifail fod yn byw yno.

Ni ddylai Myfywrwr fwydo anifeiliaid "strae" nac anifeiliaid gwyllt, na'u hannog i mewn i'r Adeilad.

2.18 Peidio â dod ag unrhyw gerbyd ar y campws heb drwydded ddilys gan y Brifysgol

Rheolir parcio cerbydau yn y Brifysgol gan drwyddedau. Bydd gwybodaeth am sut i wneud cais am drwydded parcio yn cael ei hysbysebu i Fyfywrwr ar y Fewnrwyd. Fodd bynnag gall Myfywrwr hefyd fynd i weld y Gwasanaethau Eiddo a Champws i wneud ymholiadau neu ffonio 01248 382554.

Mae trwyddedau parcio yn rhoi caniatâd i parcio cerbydau yn unig. Nid oes caniatâd i Fyfywrwr gynnal a chadw eu cerbydau (ac eithrio mewn argyfwng) na golchi eu cerbydau ar eiddo'r brifysgol.

Dylai cerbydau gael eu parcio mewn manau parcio dynodedig yn unig. Caiff unrhyw Fyfyriwr sydd yn parcio mewn unrhyw ardal sydd wedi ei marcio â llinellau coch yn wynebu camau disgyblu gan y Brifysgol.

Ni ddylai Myfywrwr gadw beiciau yn unrhyw adeilad oni bai ei fod wedi ei bennu fel lle pwrpasol i gadw beiciau.

2.19 Peidio â defnyddio'r Llety at unrhyw ddiben ond fel ystafell wely astudio

Ni chaiff Myfywrwr redeg unrhyw fusnes o'u Llety nac o unrhyw ran arall o'r Adeilad.

Ni ddylai Myfywrwr ddefnyddio'r Llety at unrhyw ddiben ond fel eu hannedd breifat.

2.20 Peidio â rhannu'r Llety na'i is-osod na throsglwyddo'r ddeiliadaeth i unrhyw un arall

Mae'r rhan fwyaf o'r Llety'n addas ar gyfer deiliadaeth gan un person yn unig ac ni chaniateir deiliadaeth ddeuol. Yr eithriadau i hyn yw rhai o'r stiwdios mwyaf ym Mhentref y Santes Fair lle caniateir dau breswylwr ar yr amod bod y ddau wedi'u cofrestru yn y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn sylweddoli y bydd rhai Myfyrwyr eisiau dod â ffrindiau'n ôl i'w Llety ac y gallent fod eisiau aros dros nos. Nod y Brifysgol yw creu a chynnal lle byw cytûn i bob preswylwr a bydd cael cydweithrediad pob preswylwr yn gymorth i ni sicrhau hyn. Felly, o bryd i'w gilydd mae'n bosib y gwnawn ganiatáu i aelod o'r teulu neu ffrind rannu ystafell y Myfyriwr am uchafswm o ddwy noson mewn cyfnod o 7 diwrnod. RHAID i breswylwr roi gwybod i'w cyd-breswylwr/cyd-letywyr os ydynt yn bwriadu gwahodd rhywun i aros dros nos ac os bydd cyd-breswylwr yn gwrthwynebu dylid ystyried eu teimladau. Dylai preswylwr fod yn arbennig o sensitif os ydynt ar goridorau i ferched yn unig neu goridorau i ddynion yn unig wrth ystyried gwahodd gwestai o'r rhyw arall i aros dros nos. Dylai preswylwr gofrestru enwau eu gwesteion trwy fynd i www.bangor.ac.uk/myroom a llenwi'r ffurflen ar-lein 'Cofrestrwch eich ymwelydd'.

Ym mlwyddyn academaidd 2020/21, bydd cyfyngiadau'n berthnasol o ran gwesteion er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau cymwys sy'n ymwneud â phandemig Covid-19.

Ni ddylai Myfyrwyr rentu eu Llety i unrhyw un arall, na chaniatáu i unrhyw un arall aros yno pan nad ydynt yno eu hunain.

Mae Myfyrwyr yn gyfrifol am ymddygiad eu hymwelwyr, ac y mae hyn yn cynnwys bod yn atebol am unrhyw ddifrod y maent yn ei achosi. Mae'n bosib y bydd rhaid i westeion adael yr Adeilad ar unrhyw adeg os creda'r Uwch Wardeiniaid neu'r staff Diogelwch yn rhesymol fod gwesteion Myfyriwr yn ymddwyn mewn modd amhriodol neu'n achosi aflonyddwch i drigolion eraill. Mae'n rhaid i Fyfyriwr sicrhau bod eu gwestai'n ymwybodol o'r drefn o adael yr adeilad mewn tân.

NI CHANIMATEIR I WESTEION AROS DROS NOS YN SNOWDON HALL, WRECSAM.

Ni chaiff myfyrwyr gyfnewid ystafelloedd heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol gan staff o'r Swyddfa Neuaddau. Bydd y Brifysgol yn codi ffi o £25.00 am drefnu i gyfnewid ystafell, gan ei bod yn amrywiad i gontract y Myfyriwr. Bydd y Brifysgol fel arfer yn trin cyfnewid ystafell heb awdurdod fel mater disgyblu a bydd yn hawlio gan y Myfyriwr fel iawndal gostau rhesymol am amser staff yn rhoi trefn ar y sefyllfa neu ddadwneud y cyfnewid ystafelloedd.

2.21 Anfon yn syth at y Brifysgol gopi o unrhyw ohebiaeth a dderbynia'r Myfyriwr sy'n debyg o effeithio ar y Llety neu'r Adeilad

Nid yw'n debygol y bydd Myfyrwyr yn derbyn unrhyw ohebiaeth swyddogol am y Llety, ond os ydynt, mae'n bwysig anfon y ddogfen yn syth at y Swyddfa Neuaddau.

2.22 Dychwelyd pob allwedd a cherdyn mynediad i'r Brifysgol ar derfyn y Cyfnod Preswyllo â pheidio â datgelu codau mynediad diogelwch i unrhyw un

Mae gan rai o'r drysau mynediad godau diogelwch, a dywedir wrth y Myfyrwyr beth ydynt pan ddônt i gasglu eu hallwedd. Ni ddylai Myfyrwyr ddatgelu'r codau mynediad hyn i neb, na gadael unrhyw berson i mewn i un o adeiladau'r Brifysgol onid yw'n rhywun a awdurdodwyd gan y Brifysgol sydd wedi dangos tystiolaeth fod ganddo awdurdod i fod yno. Ni ddylai Myfyrwyr ysgrifennu'r codau mynediad yn unman. Os datgelir beth yw'r cod mynediad, dylai'r Myfyriwr dan sylw roi gwybod am hyn i'r Swyddfa Neuaddau. Mae'n bosib y caiff y codau mynediad eu newid o dro i dro am resymau diogelwch. Bydd y Brifysgol yn rhoi rhybudd rhesymol ymlaen llaw i'r Myfyrwyr perthnasol pan fwriedir newid cod mynediad.

Cyfrifoldeb y myfyriwr yw dyfeisiau mynediad o'r funud y maent yn eu casglu. Ni ddylid gwneud unrhyw gopiâu o ddyfeisiau mynediad. Rhaid i'r Myfyriwr gadw ei ddyfeisiau mynediad gyda nhw bob amser pan fyddant yn gadael eu Llety - hyd yn oed os nad ydyn nhw'n gadael yr Adeilad.

Os bydd Myfyriwr yn anghofio neu yn colli ei ddyfais mynediad, ei bod yn cael ei dwyn, neu ei difrodi, gall Staff Diogelwch agor y Llety ond ni chaiff y Myfyriwr aros yn ei ystafell oni bai ei fod yn dangos tystiolaeth o bwy ydyw. Gall y Brifysgol hawlio, fel iawndal, gostau rhesymol dod i helpu rhywun sydd wedi ei gloi allan os nad yw'r Myfyriwr wedi cymryd gofal priodol o'i ddyfais (dyfeisiau) mynediad. Ni fydd y Brifysgol yn hawlio am gost dod i helpu rhywun sydd wedi ei gloi allan os yw'r ddyfais mynediad yn gwrthod gweithio heb fod unrhyw fai ar y Myfyriwr. Rhoddir gwybodaeth lawn i Fyfyrrwyr yn eu llyfryn gwybodaeth ar-lein. Rhaid dweud wrth y Swyddfa Neuaddau cyn gynted ag y bo modd am unrhyw ddyfais mynediad sydd ar goll, wedi ei dwyn neu ei difrodi. Bydd y Brifysgol yn codi tâl ar y Myfyriwr am gostau rhesymol y Brifysgol am ddarparu dyfais mynediad newydd a bydd yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Myfyriwr am y swm a godir.

Os ystyria'r Brifysgol yn rhesymol fod angen newid y cloeon, fel iawndal codir costau priodol gwneud hynny ar y Myfyriwr.

Codir ar Fyfyrrwyr nad ydynt yn dychwelyd eu dyfeisiau mynediad ar ddiwedd y Cyfnod Preswyllo, neu ar ôl symud i ystafell wahanol, gostau rhesymol y Brifysgol wrth gaffael dyfais (dyfeisiau) mynediad newydd, a darperir tystiolaeth ysgrifenedig i'r Myfyrrwyr o'r swm a godir.

Os na ddychwelir yr allweddi cyn pen 14 diwrnod ar ôl y dyddiad y dylid bod wedi eu dychwelyd, gellir newid y cloeon a hawli'r costau priodol gwneud hynny fel iawndal gan y Myfyriwr.

Mae'r Brifysgol yn cynnig cyfleusterau storio cyfyngedig dros gyfnod gwyliau'r haf, ond nid yw'r cyfleusterau hyn yn rhan o'r contract llety. Gellir trefnu a thalu am storio yn ystod yr haf trwy'r Swyddfa Neuaddau.

Os bydd Myfyriwr yn dychwelyd ei ddyfeisiau mynediad i'r Brifysgol hanner ffordd trwy'r Cyfnod Preswyllo, ni fydd hynny'n dod â thenantiaeth y Myfyriwr i ben. Bydd rhwymedigaeth y Myfyriwr am dalu'r Rhent yn parhau hyd nes y terfyna ei denantiaeth yn briodol yn unol â'r amodau hyn. Dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y caiff y Myfyriwr derfynu ei gontract preswyllo: yn unol ag amod 5, *unrhyw amodau arbennig sydd wedi'u cynnwys yn y Cynnig Llety, neu gyda chytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Brifysgol.*

2.23 Talu i'r Brifysgol yr holl gostau rhesymol a ddaw i'w rhan wrth orfodi rhwymedigaethau'r Myfyriwr neu sy'n codi o dorri'r rhwymedigaethau hynny.

Os yw'r Myfyriwr yn torri'r amodau hyn, mae gan y Brifysgol hawl i adennill gan y Myfyriwr gostau priodol a rhesymol unioni pethau. Er enghraifft, os metha'r Myfyriwr dalu'r Rhent ar y Dyddiad Talu, canlyniadau hynny yw bod y Brifysgol yn gorfod anfon nodiadau atgoffa at y Myfyriwr, bod y Brifysgol yn colli llog ar yr arian, ac yn y pen draw, efallai y bydd yn rhaid i'r Brifysgol gymryd cyngor cyfreithiol a mynd i'r llys i gael yr arian yn ôl ac i droi'r Myfyriwr allan. Mae gan y Brifysgol hawl i iawndal am y canlyniadau hyn, a hawl i adennill ôl-ddyledion Rhent, a hawlio costau gweinyddol priodol a rhesymol am amser staff yn mynd ar ôl y ddyled, a chost cyngor cyfreithiol a mynd i'r llys.

Os bydd yn rhaid i'r Brifysgol gymryd camau gorfodi yn erbyn Myfyriwr, mae'r Myfyriwr dan sylw yn cytuno i dalu costau'r Brifysgol am gymryd y camau gorfodi hynny, cyn belled â bod y Brifysgol yn gweithredu'n briodol ac yn rhesymol o ran y costau a ddaw i'w rhan. Bydd y costau y gall y Brifysgol eu hadennill gan y Myfyriwr yn cael eu hasesu gan y llys os na ellir cytuno ar y swm rhwng y Brifysgol a'r Myfyriwr.

Mae gosodiadau, dodrefn a chynnwys yn aml yn ddrytach i'w hadnewyddu nag y byddent mewn cartref cyffredin. Mae hyn oherwydd bod yn rhaid i eitemau a ddefnyddir lle mae pobl yn cydfywgyrraedd safonau llymach nag eitemau domestig.

Bydd unrhyw symiau ychwanegol y mae gan y Brifysgol hawl i'w hawlio gan y Myfyriwr yn ystod y flwyddyn (er enghraifft, taliad am ddifrod) yn cael eu hychwanegu at gyfrif y Myfyriwr. Bydd y Brifysgol yn hysbysu'r Myfyriwr yn ysgrifenedig o'r swm a hawli. Oni bai bod y Myfyriwr yn hysbysu'r Brifysgol yn ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod, bydd y Brifysgol yn cymryd taliad o dan awdurdod rheolaidd cerdyn talu'r Myfyriwr. Pan fydd y Myfyriwr yn anghytuno â'r swm a hawli, mae'r Myfyriwr yn cytuno i gydweithredu â'r Brifysgol i geisio datrys yr anghydfod. Yna bydd y taliad yn ddyledus cyn pen 14 diwrnod ar ôl cytuno'n ysgrifenedig i'r hawliad, neu yn unol â gorchymyn y llys.

2.24 Treth y cyngor a threthi lleol eraill

Nid yw'r Rhent yn cynnwys treth cyngor nac unrhyw drethi lleol eraill. Fel rheol bydd Myfyriwyr sydd wedi cofrestru yn y Brifysgol wedi eu heithrio rhag talu treth cyngor. Os codir unrhyw dreth cyngor yn erbyn y Llety, bydd y Myfyriwr yn talu treth y cyngor i'r awdurdod lleol neu, os talwyd y dreth gan y Brifysgol, bydd y Myfyriwr yn digolledu'r Brifysgol o fewn 14 diwrnod o dderbyn yr anfoneb.

Os daw treth y cyngor neu unrhyw dreth leol arall yn daladwy ar unrhyw ran o'r Adeilad ac eithrio ystafell wely, mae'r Myfyriwyr sydd â hawl i ddefnyddio'r rhannau hynny o'r Adeilad yn cytuno ar y cyd i dalu'r dreth (neu i ddigolledu'r Brifysgol o fewn 14 diwrnod o dderbyn yr anfoneb).

3 Rhwymedigaethau'r Brifysgol

Mae'r Brifysgol yn cytuno i osod y Llety i'r Myfyriwr a:

3.1 Cadw at God Ymarfer Prifysgolion y DU ar Reoli Tai Myfyriwyr

Mae'r cod ar gael i'w weld yn <https://www.universitiesuk.ac.uk/accommodationcodeofpractice>

3.2 Darparu'r Gwasanaethau

Dyma'r gwasanaethau a gynhwysir yn y Rhent

- (a) trwsio'r Adeilad
- (b) yswirio'r Adeilad
- (c) darparu cyflenwad trydan i'r Llety a'r Mannau Cyffredin
- (d) gwresogi a goleuo'r Llety a'r Mannau Cyffredin
- (e) darparu dŵr poeth ac oer i'r Llety a'r Mannau Cyffredin
- (f) cael gwared â sbwriel a roddwyd yn y cynhwysyddion priodol gan y preswylwyr
- (g) glanhau'r Mannau Cyffredin yn rheolaidd ac eithrio'r rhai yn ystafelloedd ymolchi y Tai Tref
- (h) staff preswyl a staff diogelwch

Mae gwasanaethau golchi dillad ar gael ym mhob llety o eiddo'r Brifysgol. Nid oes tâl am wasanaethau golchi dillad wedi ei gynnwys yn y Rhent ac mae'n daladwy ymlaen llaw trwy gardiau rhagdalau.

Nid yw'r Brifysgol yn atebol am unrhyw fethiant neu ddiffyg yn y Gwasanaethau oni achosir hynny gan esgeulustod y Brifysgol.

Efallai y bydd angen i'r Brifysgol atal, amrywio neu ategu'r Gwasanaethau er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a chanllawiau a gyhoeddwyd gan lywodraeth Cymru neu lywodraeth y Deyrnas Unedig

yn ystod pandemig Covid-19. Bydd y Brifysgol yn trin myfyrwyr yn deg ac yn rhesymol os bydd angen gwneud newidiadau. Ni ystyrir bod newidiadau o'r fath yn newid yr hyn y cytunodd y Brifysgol i'w ddarparu.

3.3 Rhoi'r Llety a'r Cynnwys yn y cyflwr a ddisgrifir ar ddechrau'r Cyfnod Preswyllo cyhyd â bod y Myfyriwr wedi crybwyll unrhyw nam neu ddiffyg o fewn 7 diwrnod o gyrraedd

Bydd y Brifysgol yn gwneud unrhyw waith trwsio neu adnewyddu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, yn ôl trefn blaenoriaeth.

3.4 Ac eithrio mewn argyfwng, neu ar gyfer gwaith trwsio y rhoddwyd gwybod amdano, ymdrechu'n rhesymol i roi i'r myfyriwr o leiaf 24 awr o rybudd cyn dod i mewn i'r Llety

Ni hysbysir unigolion, ond bydd y Brifysgol yn ceisio gofalu y rhoddir hysbysiadau am archwiliadau ystafell arferol (drwy e-bost fel rheol). Ni fydd y rhain yn nodi dyddiad nac amser penodol ar gyfer pob ystafell. Hysbysir Myfyrwyr 7 diwrnod ymlaen llaw am ymweliadau cynnal a chadw sydd wedi eu trefnu.

Pan ofynnir i Fyfyriwr gymryd camau unioni yn dilyn archwilio ystafell hysbysir y Myfyriwr bryd hynny a fydd archwiliad pellach, a chynhelir yr archwiliad pellach o leiaf 24 awr ar ôl rhoi'r rhybudd. Fodd bynnag, ni fydd y Brifysgol yn nodi dyddiad nac amser penodol ar gyfer archwiliad o'r fath.

Os oes gan y Brifysgol reswm dros gredu fod Myfyriwr yn torri'r amodau hyn neu os yw'n rhesymol pryderu am iechyd neu les y Myfyriwr gall y Brifysgol fynd i mewn i'r Llety heb roi rhybudd ymlaen llaw.

Gall y Brifysgol fynd i mewn i Fannau Cyffredin heb roi rhybudd ymlaen llaw, at unrhyw ddiben rhesymol.

Os oes angen gwneud gwaith, bydd y Myfyriwr, os gofynnir iddo, yn gadael yr ardal dan sylw dros dro i hwyluso pellter cymdeithasol rhwng y Myfyriwr a'r gweithiwr.

3.5 Peidio â tharfu mwy na sydd angen yn rhesymol ar Fyfyryr sy'n byw yn y Llety

Bydd y Brifysgol yn ymdrechu'n rhesymol i wneud gwaith cynnal a chadw sydd wedi ei drefnu yn ystod y gwyliau lle bo hynny'n ymarferol. Bydd y Brifysgol yn rhoi rhybudd 7 diwrnod ymlaen llaw os gwneir gwaith cynnal a chadw sydd wedi ei drefnu.

Caiff ystafelloedd eu harchwilio fel rheol unwaith bob semester, ond gall ddigwydd yn amlach os oes gan y Brifysgol achos rhesymol dros gredu fod y Myfyriwr yn torri'r amodau hyn.

3.6 Peidio â datgelu gwybodaeth bersonol a gafwyd gan y Myfyriwr ac eithrio fel y caniateir gan yr amodau hyn neu lle mae perygl difrifol o niwed i'r Myfyriwr, neu eraill, neu i eiddo'r Brifysgol

Mae Amod 4.2 yn rhoi hawl i'r Brifysgol ddefnyddio data personol Myfyrwyr at bob diben cyfreithlon yng nghyswllt contract y myfyriwr (gan gynnwys adennill dyledion, atal troseddau, mesur boddhad) neu os oes perygl difrifol o niwed i'r Myfyriwr, i eraill neu i eiddo'r Brifysgol.

Mae rheolau arbennig yn ôl y gyfraith ar gyfer Myfyrwyr ag anableddau sydd yn gofyn yn benodol am gadw gwybodaeth am eu hanabledd yn gyfrinachol, a bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech resymol i gydymffurfio â'r rheolau hynny.

4 Amodau Eraill

- 4.1** Mae'r Myfyriwr yn gyfrifol am ymddygiad unrhyw ymwelydd (ymwelwyr) neu westeion a wahoddir
- 4.2** Mae'r Myfyriwr trwy hyn yn awdurdodi'r Brifysgol ddefnyddio ei ddata personol at bob diben cyfreithlon yng nghyswllt y contract preswyllo (gan gynnwys adennill dyledion, atal troseddau, a mesur boddhad) neu os oes perygl difrifol o niwed i'r Myfyriwr neu eraill neu i eiddo'r Brifysgol.
- 4.3** Nid yw'r Brifysgol yn atebol am golled neu ddifrod i bobl neu eiddo oni achosir y golled neu'r difrod trwy esgeulustod y Brifysgol, neu trwy dorri ei rhwymedigaethau yn yr amodau hyn
- 4.4** Nid oes rheidrwydd ar y Brifysgol i drwsio unrhyw ddifrod a achosir gan y Myfyriwr oni bai bod y costau'n cael eu talu gan yswiriant (gyda'r Myfyriwr yn talu unrhyw dâl dros ben ar y polisi) neu gan y Myfyriwr.
- 4.5** Gall y Brifysgol drin torri ymrwymadau'r Myfyriwr yn yr amodau hyn fel mater disgyblu yn ogystal â thor contract.
- 4.6** Mae gan y Brifysgol yr hawl i symud o'r Llety neu'r Mannau Cyffredin unrhyw beth sy'n peri rhwystr neu berygl tân neu iechyd a diogelwch ond bydd yn ei ddychwelyd i'r Myfyriwr (oni bai ei fod yn ddarvoudus neu wedi cael ei drosglwyddo i'r heddlu) adeg terfynu'r contract preswyllo.
- 4.7** Rhaid i hysbysiadau a roddir dan y contract preswyllo fod yn ysgrifenedig a chyfeiriad y Brifysgol i'w cyflwyno yw Y Swyddfa Neuaddau, Pentref Ffriddoedd, Ffordd Ffriddoedd, Bangor, Gwynedd LL57 2GP.
- 4.8** Ni fwriedir i'r contract preswyllo rhwng y Brifysgol a'r Myfyriwr roi unrhyw fudd i unrhyw un nad yw'n rhan ohono.
- 4.9** Mae'r contract preswyllo (gan gynnwys yr amodau hyn, ac unrhyw bolisiâu neu reoliadau a gafodd eu cyfleu i'r Myfyriwr cyn y dyddiad y daw'r contract preswyllo i rym) yn cynnwys yr holl delerau y cytunodd y Brifysgol a'r Myfyriwr arnynt pan ddaw i rym. Gall y Brifysgol ddiwygio neu ychwanegu at yr amodau hyn os yw'n rhesymol angenrheidiol gwneud hynny er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau a chanllawiau statudol y Brifysgol. Mewn achosion unigol, gall y Myfyriwr a'r Brifysgol gytuno i amrywiad i delerau contract, ond dim ond os cytunir rhwng y Myfyriwr a staff Swyddfa Neuaddau'r Brifysgol y bydd yr amrywiad hwnnw'n effeithiol. Bydd y Brifysgol yn cadarnhau unrhyw amrywiad y cytunir arno i'r Myfyriwr yn ysgrifenedig adeg gwneud yr amrywiad. Os gwneir yr amrywiad ar gais y Myfyriwr, rhaid i'r Myfyriwr dalu taliadau gweinyddol rhesymol y Brifysgol.
- 4.10** Gall naill ai'r Brifysgol neu'r Myfyriwr gyfeirio unrhyw anghydfod ynghylch y contract preswyllo at y Grŵp Cyswllt Llety a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Profiad Myfyrywyr.
- 4.11** Gall Myfyrywyr sy'n dymuno symud i ystafell wahanol roi eu henwau ar restr aros. Ni fydd y rhestr aros ar gael tan AR ÔL ail neu drydedd wythnos Semester 1. Caiff y dyddiad ei hysbysebu yn y Swyddfa Neuaddau. Mae'r Myfyrywyr yn cytuno i dalu tâl gweinyddol o £25 i'r Brifysgol pan fyddant yn gofyn i symud i ystafell wahanol.
- 4.12** Cytundeb tenantiaeth yw'r contract preswyllo rhwng y Brifysgol a'r Myfyriwr dan baragraff 8 atodlen 1 Deddf Tai 1988. Nid yw'r contract preswyllo yn gytundeb ar gyfer tenantiaeth byrddaliad sicr. Serch bwriad y partïon y bydd y contract preswyllo yn ddarostyngedig i gyfraith Lloegr, at ddibenion Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, contract meddiannaeth safonol yw'r contract preswyllo.

5 Covid-19

5.1 Trefniadau Cyrraedd sy'n benodol i Covid-19

Er mwyn cynnal pellter personol ar y dyddiadau cyrraedd, bydd y Brifysgol yn rhoi cyfnod o 2 awr i Fyfyrrwyr ddod i gasglu allwedd i er mwyn gallu symud i'r Llety. Efallai y bydd y Myfyriwr yn cael ei droi i ffwrdd os bydd y Myfyriwr yn cyrraedd ar amser prysur y tu allan i'r cyfnod hwnnw ac yna bydd angen iddo aildefnu slot cyrraedd.

Gall y Myfyriwr deithio i'r brifysgol gydag aelodau o aelwyd y Myfyriwr, ond gall y Brifysgol ofyn iddynt beidio â mynd i mewn i adeiladau'r brifysgol.

Bydd y Brifysgol yn dilyn rheoliadau a chanllawiau sy'n ymwneud â Covid-19 fel y byddant yn berthnasol yng Nghymru ac yn gwneud addasiadau rhesymol i'w gweithdrefnau i uchafu diogelwch a lleihau anghyfleustra yn ystod yr amser cyrraedd.

Y MYFYRIWR sy'n gyfrifol am gydymffurfio â rheoliadau a chanllawiau sy'n ymwneud â Covid-19, fel sy'n berthnasol yng Nghymru. Gall y rhain newid o wythnos i wythnos, a rhaid i'r Myfyriwr sicrhau ei fod yn dilyn yr wybodaeth ddiweddaraf ac yn ymwybodol y gall y rheoliadau a'r arweiniad yng Nghymru fod yn wahanol i'r rhai sy'n berthnasol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

5.2 Iechyd a Diogelwch sy'n benodol i Covid-19

Argymhellir yn gryf bod myfyrrwyr yn golchi eu dwylo'n dda pryd bynnag y byddant yn gadael neu'n dychwelyd i'r Llety - hyd yn oed os mai dim ond mynd i ran arall o'r adeilad y maent.

Efallai y bydd angen i'r Brifysgol amrywio rhai o'r adnoddau a'r cyfleusterau y mae yn eu darparu, megis newid arferion glanhau neu gau ystafelloedd cyffredin. Ni fydd unrhyw ostyngiad yn y Rhent a dim iawndal yn yr amgylchiadau hynny, oherwydd y gwasanaethau ychwanegol a fydd yn cael eu darparu i reoli covid-19.

Efallai y bydd rhai cyfleusterau (megis golchdai talu wrth fynd) yn cael eu cynnig ar sail rota, fel na all y Myfyriwr ond eu defnyddio ar amser penodedig.

5.3 Cyfnod Cwarantîn

Efallai y bydd y Brifysgol neu lywodraeth Cymru neu lywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Myfyriwr dreulio cyfnod mewn cwarantîn (arwahanu) wrth gyrraedd y Deyrnas Unedig neu yn y brifysgol. Os yw hynny'n wir, a dim ond os yw hynny'n wir, y mae'r cymal 5.3 hwn yn berthnasol.

Gall y Myfyriwr ddewis treulio ei gyfnod cwarantîn cyn dechrau ei Gyfnod Preswyllo (naill ai cyn y Dyddiad Dechrau Targed neu, os yw'n berthnasol, cyn y Dyddiad Dechrau Gohiriedig). Felly efallai y bydd angen i'r Myfyriwr deithio i'r Deyrnas Unedig o leiaf 2 wythnos cyn y disgwylir i'r denantiaeth ddechrau. Gallai hyn fod mor gynnar â dydd Sul 13 Medi 2020.

Rhaid i'r Myfyriwr hysbysu'r Brifysgol, o leiaf 7 diwrnod cyn y disgwylir i'r Myfyriwr gyrraedd y Deyrnas Unedig, o ddyddiad, amser a lleoliad dyfodiad y Myfyriwr i'r Deyrnas Unedig. Mae'r amser hysbysu yn hanfodol, ac nid oes rhaid i'r Brifysgol roi cymorth cwarantîn i'r Myfyriwr os na fydd y Myfyriwr yn hysbysu'r Brifysgol mewn da bryd cyn iddo gyrraedd.

Ar ôl cyrraedd y Brifysgol, darperir llety am ddim i'r Myfyriwr am hyd at 2 wythnos. Mae'r llety hwn yn debygol o fod mewn fflat gyda myfyrrwyr eraill sydd mewn cwarantîn. Bydd gan bob myfyriwr ei ystafell wely ei hun, ond bydd rhai cyfleusterau i'w rhannu rhwng myfyrrwyr y fflat.

Anogir y rhai sy'n rhannu fflat i gyfyngu'r defnydd o gyfleusterau a rennir fel mai dim ond un person sy'n eu defnyddio ar unrhyw un adeg.

Rhaid i'r Myfyriwr ddefnyddio ei lestri a'i gyllyll a ffyrc ei hun yn unig, a pheidio â'u rhannu ag eraill. Rhaid i'r Myfyriwr bob amser adael y cyfleusterau a rennir yn lân ar ôl eu defnyddio.

Efallai na fydd y llety a ddarperir a'r bobl sy'n rhannu cyfleusterau gyda'r Myfyriwr yn ystod cyfnod arwahanu'r un fath ag y byddant yn ystod y denantiaeth. Rhaid i'r Myfyriwr adleoli i'r llety amser tymor a ddyrannwyd ar ddiwedd ei gyfnod arwahanu os bydd y Brifysgol yn gofyn iddo wneud hynny.

Bydd y Brifysgol yn darparu gweithgareddau ar-lein tra bydd y Myfyriwr mewn cwarantîn, a bydd pobl yn y Brifysgol y gall myfyrwyr gysylltu â nhw os ydynt yn profi anawsterau yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd post a pharseli a gyfeirir at y Myfyriwr yn cael eu danfon i'r fflat. Gofynnir i'r Myfyriwr archebu dim ond eitemau hanfodol yn ystod yr amser hwn.

Rhaid i'r Myfyriwr bob amser gydymffurfio â cheisiadau rhesymol ein staff mewn perthynas ag iechyd a diogelwch.

Mae'r Brifysgol yn debygol o roi gwybod i'r heddlu neu i Lu Ffiniau'r Deyrnas Unedig am achosion o dorri cwarantîn.

Os na fydd y Myfyriwr yn cydymffurfio â'r amodau a nodir yn y cymal 5.3 hwn, gall y Brifysgol wrthod darparu neu gwblhau'r gefnogaeth cwarantîn. Yna bydd yn rhaid i'r Myfyriwr wneud ei drefniadau cwarantîn ei hun a rhoi tystiolaeth i'r Brifysgol bod y Myfyriwr wedi cwblhau ei gyfnod cwarantîn cyn y bydd y Brifysgol yn caniatáu i'r Myfyriwr symud i'r Llety.

Yn ddarostyngedig i gymal 2.4, bydd y Myfyriwr yn atebol i dalu Rhent o'r Dyddiad Dechrau Targed (neu o unrhyw Ddyddiad Dechrau Gohiriedig cymwys), hyd yn oed os nad yw wedi cwblhau ei gyfnod cwarantîn erbyn y dyddiad hwnnw, neu os gwrthodwyd mynediad iddo i'r Llety oherwydd na allai brofi ei fod/bod wedi cwblhau cyfnod gofynnol o gwarantîn mewn man arall.

5.4 Os bydd covid-19 yn dychwelyd

Rhaid i'r Myfyriwr a'r Brifysgol gydymffurfio â'r gyfraith. Cyn belled ag y mae'r gyfraith yn caniatáu, mae'r Myfyriwr a'r Brifysgol yn cytuno i geisio cyflawni eu priod rwymedigaethau yn y contract llety.

Os yw rheoliadau'r llywodraeth neu reoliadau lleol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol gau, bydd rhaid iddi gau. Ni chodir Rhent ar y Myfyriwr am unrhyw gyfnod pan fydd llywodraeth y Deyrnas Unedig, Senedd Cymru neu awdurdod lleol yn dweud na chaiff Myfyriwr fyw yn y Llety, cyhyd â bod y Myfyriwr yn gadael mewn gwirionedd. Os yw'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Myfyriwr aros yn y man y mae'n byw, rhaid i'r Myfyriwr aros yno tra bo'r rheoliadau hynny'n berthnasol. Codir Rhent ar y Myfyriwr am yr amser y mae'n ofynnol iddo / iddi aros yn y Llety, hyd yn oed os yw'n torri'r gyfraith ac yn gadael y Llety.

Gall y Brifysgol ddewis cau neuadd breswyl Myfyriwr, er lles iechyd a diogelwch myfyrwyr a staff, hyd yn oed os nad yw rheoliadau'r llywodraeth neu reoliadau lleol yn gwneud hynny'n ofynnol. Os bydd y Brifysgol yn dewis cau neuadd breswyl Myfyriwr, ni chodir Rhent ar y Myfyriwr am y cyfnod y bydd y neuadd ar gau, cyhyd â bod y Myfyriwr mewn gwirionedd yn gadael y neuadd breswyl. Os bydd y Brifysgol yn dewis cau neuadd breswyl Myfyriwr am fwy na 4 wythnos, bydd gan y Myfyriwr yr hawl i ganslo'r contract llety yn hytrach na dychwelyd pan fydd y llety'n cael ei ailagor. I ganslo, rhaid i'r Myfyriwr hysbysu'r Brifysgol am ddymuniad y Myfyriwr i ganslo cyn pen 7 diwrnod ar ôl i'r Brifysgol hysbysu'r Myfyriwr y gall dychwelyd.

Gall y Myfyriwr ddewis gadael y Llety os yw rheoliadau'r llywodraeth a rheoliadau lleol yn caniatáu hynny, ond oni bai bod yn ofynnol i'r Brifysgol gau neu ei bod yn dewis cau neuadd breswyl

Myfyriwr, bydd y Myfyriwr yn parhau i fod yn atebol am y Rhent hyd ddiwedd y Cyfnod Preswyllo, p'un a yw'r Myfyriwr yn byw yn y Llety ai peidio.

Os amharir ar denantiaeth y Myfyriwr neu os bydd y Myfyriwr yn dewis gadael y Llety am fwy na 7 diwrnod, rhaid i'r Myfyriwr adael y Llety yn lân a symud yr holl eitemau darfodus oddi yno cyn gadael. Gall y Myfyriwr adael eiddo personol yn y Llety tan ddiwedd y Cyfnod Preswyllo, ond nid y tu hwnt i hynny. Os na all y Myfyriwr gasglu ei eiddo yn bersonol ar ddiwedd y Cyfnod Preswyllo, rhaid i'r Myfyriwr drefnu a thalu i gontractiwr o ddewis y Myfyriwr bacio a chludo ei eiddo oddi yno. Bydd y Brifysgol yn cael gwared ar unrhyw eiddo personol sydd wedi ei adael yn y Llety ar ddiwedd y Cyfnod Preswyllo oni bai bod y Myfyriwr, cyn diwedd y Cyfnod Preswyllo, wedi hysbysu'r Brifysgol y bydd contractwr y Myfyriwr yn symud eiddo'r Myfyriwr cyn pen 7 diwrnod wedi diwedd y cyfnod tenantiaeth, a bod yr eiddo yn cael ei symud o fewn yr amserlen honno. Efallai y bydd angen i bwy bynnag sy'n pacio eiddo'r Myfyriwr (gan gynnwys y Myfyriwr) wneud apwyntiad i ddod i'w casglu.

- 5.6 Os yw'n ofynnol i'r Myfyriwr fod mewn cwarantîn ("cyfyngiadau symud") ar ddiwedd y Cyfnod Preswyllo ac na all symud allan o'r Llety yn gyfreithlon, bydd y Brifysgol yn hysbysu'r Myfyriwr bryd hynny am unrhyw gymorth y gall ei darparu. Fodd bynnag, ni all y Brifysgol wneud unrhyw addewidion na gwarantau cymorth mor bell ymlaen llaw.

6. Terfynu Contract Preswyllo Myfyriwr

6.1 Cyrraedd yn hwyr – dylid darllen yr amod hwn ar y cyd ag amod 2.1, 2.3 a 2.4 sy'n ymwneud â blaendaliadau rhent a chyrraedd yn hwyr. Gall y Swyddfa Neuaddau ganslo contract preswyllo Myfyriwr (ond nid oes rheidwydd i wneud hyn) os:

- (a) Nad yw'r Myfyriwr yn gwneud trefniadau i gyrraedd yn hwyr nac yn meddiannu ei lety o fewn 7 diwrnod i ddechrau'r Cyfnod Preswyllo; neu
- (b) Ar ôl gwneud trefniadau i gyrraedd yn hwyr, nad yw'r Myfyriwr yn meddiannu ei lety o fewn 4 diwrnod i ddechrau'r Cyfnod Preswyllo.

Yn y naill achos a'r llall, ni fydd y Brifysgol yn ad-dalu'r blaendal rhent.

Dim ond os gall y Brifysgol ddod o hyd i fyfyrwr addas i osod y Llety iddo y mae'r Brifysgol yn debygol o ganslo contract preswyllo Myfyriwr. Os ceir hyd i fyfyrwr addas i osod y Llety iddo, bydd y Brifysgol yn ad-dalu'r Rhent a dalwyd gan y Myfyriwr ymlaen llaw mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan oedd myfyriwr arall yn byw yn y Llety.

Os nad yw Myfyriwr yn cymryd eu tenantiaeth a bod y Brifysgol ddim yn canslo'r contract preswyllo, mae'r Myfyriwr yn atebol am dalu'r Rhent am weddill y Cyfnod Preswyllo.

6.2 Terfynu gan y Brifysgol

Gall y Brifysgol (ond nid oes rheidwydd i wneud hyn) derfynu contract preswyllo Myfyriwr ar unrhyw adeg trwy gyflwyno rhybudd i'r myfyriwr os

- (a) oes unrhyw dâl yn ddyledus ers 28 diwrnod neu fwy
- (b) yw'r Myfyriwr yn torri'n ddifrifol neu'n gyson unrhyw rai o ymrwymadau'r Myfyriwr sydd wedi eu hamlinellu yn yr amodau hyn gan ddilyn Polisi y Brifysgol ar Addaswydd i Breswyllo
- (c) yw'r Brifysgol wedi gosod sancsiynau disgyblu trwy wahardd y Myfyriwr o'r Brifysgol
- (c) nad oes gan y Myfyriwr statws myfyriwr cofrestredig yn y Brifysgol

- (d) ym marn resymol y Brifysgol fod iechyd neu ymddygiad y Myfyriwr yn peri risg difrifol iddo ef/hi ei hun neu eraill neu i eiddo'r Brifysgol neu eiddo arall (mae'r Cod Ymddygiad Myfyrywr yn nodi pa fath o ymddygiad a all arwain at derfynu contract)
- (e) nad yw'r Llety na'r Mannau Cyffredin sy'n gwasanaethu'r Llety yn rhesymol addas i fyw ynddynt.

Gall cyfnod y rhybudd amrywio, yn ôl y rheswm dros derfynu

Os, yn dilyn penderfyniad disgyblu, bod y Myfyriwr yn cael ei ddiarddel o'r Brifysgol, bydd y Brifysgol fel rheol yn ceisio cytuno ar gyfnod o absenoldeb gyda'r Myfyriwr fel dewis arall yn hytrach na chymryd camau i droi'r Myfyriwr allan.

Ni fydd terfynu o dan amod 5.2(e) yn effeithio ar hawl y Myfyriwr i hawlio iawndal.

6.3 Terfynu gan y Myfyriwr

Tynnu'n Ôl o'r Brifysgol

Gweler yr wybodaeth ar y wefan: <https://www.bangor.ac.uk/accommodation/documents/withdrawal-from-hall-CY.pdf>

Mae contract preswyllo rhwng Myfyriwr a'r Brifysgol yn **gyfreithiol-rwym**. Ar ôl derbyn eu Cynnig, ni ddylai Myfyrywr arwyddo unrhyw contract neu gytundeb arall am lety yn ystod y Cyfnod Preswyllo, oherwydd gallai olygu gorfod talu dau rent. Ni fydd y Brifysgol yn rhyddhau Myfyriwr o'i contract preswyllo oherwydd bod y Myfyriwr wedi cytuno ar denantiaeth neu ryw ffurf arall o gytundeb gyda thrydydd parti.

Dylai unrhyw Fyfyriwr sy'n bwriadu rhoi'r gorau i'w astudiaethau yn y Brifysgol siarad â'r Gwasanaethau Myfyrywr yn gyntaf i gwblhau'r gwaith papur angenrheidiol. Dylid dod â chopi o'r gwaith papur i'r Swyddfa Neuaddau er mwyn trefnu terfynu contract preswyllo'r Myfyriwr. Gweler: <https://www.bangor.ac.uk/accommodation/documents/withdrawal-from-hall-CY.pdf> i gael y manylion yn llawn, gan gynnwys manylion y taliadau terfynu cynnar sy'n berthnasol.

Dylai unrhyw Fyfyriwr nad yw'n bwriadu gadael y Brifysgol ond sy'n dymuno gadael ei lety ddeall mai dim ond pan ellir dod o hyd i denant addas arall y gellir caniatáu hyn. Bydd y Brifysgol yn dweud wrth y Myfyriwr os oes Myfyriwr addas arall ar y rhestr aros ar hyn o bryd, ond ni ddylai'r Myfyriwr gymryd yn ganiataol y bydd rhywun ar gael i gymryd ei le. Os caiff y Myfyriwr ei ryddhau o'i contract preswyllo bydd yn ofynnol iddo dalu hyd y dyddiad y bydd y tenant arall yn arwyddo contract preswyllo. Gweler: <http://www.bangor.ac.uk/accommodation/documents/withdrawal-from-hall-CY.pdf>

Os daw'r Myfyriwr o hyd i denant posibl yn ei le dylai'r Myfyriwr gysylltu â'r Swyddfa Neuaddau a rhoi manylion y myfyriwr arall posibl. Ni fydd rhaid i'r Brifysgol dderbyn y myfyriwr arall oni bai eu bod yn cytuno (gan weithredu'n rhesymol) bod y myfyriwr arall yn addas. Rhaid i'r sawl sy'n cael ei gynnig fod yn fyfyriwr prifysgol, rhaid iddo beidio â bod mewn dyled i'r Brifysgol a rhaid iddo beidio â bod eisoes yn meddiannu llety sy'n eiddo i'r Brifysgol neu lety a reolir ganddi.

Weithiau bydd gan y Brifysgol ystafelloedd gwag eisoes. Gall y Brifysgol osod yr ystafelloedd hyn i Fyfyrywr ar eu rhestr aros cyn neilltuo rhywun i'r ystafell y mae'r Myfyriwr yn dymuno ei gadael.

Os bydd y Myfyriwr yn rhoi ei h/allweddi i'r Brifysgol cyn i'r Myfyriwr arall arwyddo'r contract preswyllo, mae'r Myfyriwr yn parhau'n atebol am y Rhent hyd nes daw'r contract preswyllo newydd i rym. Os bydd Myfyriwr yn dychwelyd ei allweddi a bod dim Myfyriwr newydd i

gymryd y denantiaeth yn ei le cedwir yr allweddi'n ddiogel yn unig ac ni fydd y Myfyriwr yn cael ei ryddhau o'r contract preswyllo.

6.4 Os terfynir contract preswyllo yn gynnar naill ai gan y Brifysgol neu'r Myfyriwr:

Bydd effaith y canslo yn dibynnu a yw'r canslo'n digwydd oherwydd coronafirws neu am ryw reswm arall.

Canslo oherwydd coronafeirws

Yn 2020/21, gellir ategu at y cymal hwn oherwydd mesurau yn ymwneud â rheoli coronafirws y mae'r Brifysgol yn eu cyflwyno maes o law er diogelwch neu fudd myfyryr ar yr amod bod y mesurau yn cael eu gwneud yn ddidwyll ac nad ydynt yn creu anghydbwysedd sylweddol yn hawliau a rhwymedigaethau'r partïon sy'n niweidiol i'r Myfyriwr.

Os bydd y Brifysgol yn gohirio dechrau tenantiaeth y Myfyriwr gan fwy nag 8 wythnos, gall y Myfyriwr ganslo ei gontract llety. I ganslo o dan y cymal hwn, rhaid i'r Myfyriwr hysbysu'r Brifysgol yn ysgrifenedig (gan gynnwys e-bost) o fwriad y Myfyriwr i ganslo yn ystod mis Tachwedd 2020.

Os bydd y Brifysgol yn gohirio dechrau'r flwyddyn academaidd gan fwy nag 8 wythnos, gall y Brifysgol ganslo contract llety'r Myfyriwr.

Os yw'r Myfyriwr yn cael ei atal rhag teithio i'r Llety ar ddechrau'r Cyfnod Preswyllo oherwydd bod rheoliadau Covid-19 y llywodraeth yn gwahardd hynny ar y pryd, yna gall y Myfyriwr ohirio dechrau'r denantiaeth am hyd at 12 wythnos. Mae'r amodau isod yn berthnasol.

- Rhaid i'r Myfyriwr hysbysu'r Brifysgol cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r Myfyriwr ddod yn ymwybodol y bydd ef/hi yn cael ei atal rhag teithio i'r Llety fel y cynlluniwyd.
- Os mai'r rheswm y mae'r Myfyriwr yn cael ei atal rhag teithio yw er mwyn cydymffurfio â rheoliadau yng Nghymru neu mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig y mae'n rhaid i'r Myfyriwr deithio drwyddo, ni fydd yn rhaid i'r Myfyriwr dalu Rhent tra bydd y rheoliadau hynny'n parhau i atal y Myfyriwr rhag teithio.
- Os yw'r Myfyriwr yn cael ei atal rhag teithio oherwydd rheoliadau sy'n berthnasol y tu allan i'r Deyrnas Unedig, bydd angen i'r Myfyriwr ddarparu tystiolaeth yn Saesneg neu Gymraeg (megis nodyn meddyg neu fanylion y rheoliadau a oedd yn berthnasol yn y wlad y daw'r Myfyriwr ohoni neu yr oedd angen i'r Myfyriwr deithio trwyddi) neu codir Rhent o hyd ar y Myfyriwr o'r dyddiad yr oedd y denantiaeth i fod i ddechrau.
- Os yw'r Myfyriwr yn dal i fethu â theithio i'r Llety 12 wythnos ar ôl i'w denantiaeth ddechrau, gall y Myfyriwr ganslo ei gontract llety drwy hysbysu'r Brifysgol yn ysgrifenedig (gan gynnwys e-bost).
- Rhaid rhoi gwybod i'r Brifysgol am ganslo o dan y cymal hwn cyn pen 12 wythnos ar ôl y dyddiad yr oedd tenantiaeth y Myfyriwr i fod i ddechrau.
- Rhaid i'r Myfyriwr nodi yn ei hysbysiad canslo y rheswm y cafodd y Myfyriwr ei atal rhag teithio (er enghraifft, rheoliadau yng Nghymru neu Loegr, neu reoliadau yn y wlad yr oedd y Myfyriwr yn bwriadu teithio ohoni neu drwyddi).
- Rhaid i'r Myfyriwr anfon tystiolaeth i'r Brifysgol yn Saesneg neu Gymraeg i gefnogi ei rybudd canslo os mai'r rheswm y cafodd y Myfyriwr ei atal rhag teithio am fwy na 12 wythnos yw unrhyw beth heblaw cydymffurfio â rheoliadau yng Nghymru neu Loegr, fel arall y ni fydd

canslo yn dod i rym.

- Gall y Brifysgol ganslo contract llety Myfyriwr os yw'r Myfyriwr yn cael ei atal rhag teithio i'r Llety am fwy na 12 wythnos ar ôl i'w denantiaeth ddechrau.

Ni chaiff y Myfyriwr ganslo ei contract os yw Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Myfyriwr adael ein llety i atal lledaeniad covid-19. Fodd bynnag, cyhyd â bod y Myfyriwr yn gadael yn ystod unrhyw gyfnod o'r fath pan mae'n angenrheidiol cau'r llety, ni chodir Rhent ar y Myfyriwr. Bydd y Myfyriwr yn dod yn atebol am Rhent eto unwaith y caniateir i'r Myfyriwr dychwelyd i'r Llety ar ôl cyfnod o gau a orfodir gan y llywodraeth (hyd yn oed os na fydd y Myfyriwr yn dychwelyd ar unwaith). Os na fydd y Myfyriwr yn gadael pan fydd y llywodraeth yn mynnu hynny, bydd y Myfyriwr yn parhau i fod yn atebol am Rent ac unrhyw ddirwyon y gall y wladwriaeth eu rhoi am dorri'r rheoliadau.

Gall y Myfyriwr ganslo'r contract llety os bydd y Brifysgol yn gofyn i'r Myfyriwr adael y Llety am fwy nag 8 wythnos, ar adeg pan nad yw'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol wneud hynny.

Os yw'r Myfyriwr neu'r Brifysgol yn canslo'r contract llety fel y caniateir uchod:

- Bydd y Brifysgol yn ad-dalu'r blaendal os nad yw'r Myfyriwr wedi dechrau ei denantiaeth adeg y canslo, ond ni chaiff y blaendal ei ad-dalu unwaith y bydd y Myfyriwr wedi dechrau meddiannu'r Llety.
- Ni fydd yn rhaid i'r Myfyriwr dalu unrhyw Rhent i'r Brifysgol o'r dyddiad canslo
- Ni fydd y Brifysgol yn talu unrhyw beth i'r Myfyriwr ac eithrio dychwelyd unrhyw arian a dalwyd yn flaenorol mewn perthynas â chyfnod ar ôl y canslo.

Canslo am reswm heblaw coronafeirws

- (a) Caiff y blaendal ei ad-dalu i Fyfyriwr nad yw am ddechrau ei gwrs yn y Brifysgol cyhyd â bod y Myfyriwr wedi hysbysu'r Brifysgol yn ysgrifenedig ei fod yn dymuno canslo ei contract preswyllo o leiaf 7 diwrnod cyn dechrau'r Cyfnod Preswyllo. Caiff y blaendal ei ad-dalu i'r Myfyriwr os yw'r Brifysgol yn canslo'r contract preswyllo heb fod unrhyw fai ar y Myfyriwr. Os yw'r Myfyriwr yn gymwys i gael ad-daliad o'u blaendal, mae hawl gan y Myfyriwr hefyd i gael ad-daliad o unrhyw daliadau eraill y mae wedi eu talu tuag at y Rhent. Ni chaiff blaendaliadau eu had-dalu mewn amgylchiadau eraill fel rheol a gwneir hynny yn llwyr yn ôl disgrisiwn y Brifysgol.
- (b) Hyd yn oed pan nad yw'r blaendal yn ad-daladwy, os oes myfyriwr arall yn arwyddo contract am Lety, bydd y Brifysgol yn ad-dalu cyfran deg o unrhyw Rent y mae'r Myfyriwr wedi ei dalu ymlaen llaw tuag at unrhyw ran sydd heb ddarfod o'r Cyfnod Preswyllo (fel bod y Brifysgol yn yr un sefyllfa ariannol â phe bai'r Myfyriwr wedi talu am ei Lety hyd at ddiwedd y Cyfnod Preswyllo).
- (c) Gall y Brifysgol ddiwynnu unrhyw arian sy'n ddyledus i'r Brifysgol cyn ad-dalu blaendal Rhent, gan gynnwys ffi weinyddol y Brifysgol o £25 am ganslo contract preswyllo yn ystod y Cyfnod Preswyllo.
- (d) Os nad oes modd i'r Brifysgol ail-osod y Llety i fyfyriwr arall addas, ni fydd y Brifysgol yn gwneud unrhyw ad-daliad a bydd y Myfyriwr yn parhau'n atebol am unrhyw Rent sydd heb ei dalu hyd ddiwedd y Cyfnod Preswyllo.
- (e) Ni fydd y Brifysgol yn codi unrhyw dâl am derfynu'n gynnar nac yn mynnu taliad am weddill y Rhent os mai'r rheswm dros derfynu yw bod iechyd y Myfyriwr yn golygu na all fyw yn annibynnol na pharhau â'i astudiaethau yn y Brifysgol (bydd angen darparu gwiriad annibynnol).

6.4 Adleoli i lety arall

Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i symud y Myfyriwr i lety arall tebyg yn y Brifysgol yn ystod Cyfnod Preswyllo lle bo'n rhesymol gwneud hynny. Bydd bob amser yn rhesymol adleoli'r Myfyriwr at ddibenion rheoli effaith coronafirws neu er mwyn gwneud gwaith brys yn y llety na ellir yn rhesymol ei wneud tra bo'r Myfyriwr yn byw yno. Mae rhesymau eraill sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch yn debygol o fod yn rhesymol hefyd, ond nid oes rhaid i'r rhesymau dros adleoli fod yn seiliedig ar iechyd a diogelwch, cyhyd â'u bod yn rhesymol. Ni fydd y Brifysgol yn atebol am dalu unrhyw iawndal i'r Myfyriwr os caiff Myfyriwr ei symud i lety cyffelyb. Nid oes unrhyw beth yn yr amod hwn yn effeithio ar hawliau statudol y Myfyriwr.

Delir yr hawlfraint 2007-2020 ar y cyd gan Brifysgol Bangor a Hatch Legal

Difrod	Swm nodweddiadol a hawlir	
Gwaith glanhau ychwanegol	£10.00	isafswm
Lamp anglepoise	£75.00	isafswm
Gwaelod gwely	£120.00	isafswm
Cabinet wrth erchwyn y gwely	£80.00	
Bleindiau	£35.00	isafswm
Silffoedd Llyfrau	£65.00	isafswm
Gosod carped a llawr newydd	£150.00	isafswm
Glanhau ystafell wely ar ddiwedd y denantiaeth os na chaiff ei adael i'r safon ddisgwyliedig	£30.00	
Glanhau'r en-suite ar ddiwedd y denantiaeth os na chaiff ei adael i'r safon disgwyliedig	£30.00	
Cadair cyfrifiadur	£60.00	isafswm
Popty gan gynnwys cysylltu a symud	£185.00	isafswm
Gosod llenni newydd	£100.00	isafswm
Soced data	£30.00	
Cadair desg	£60.00	isafswm
Lamp desg	£10.00	isafswm
Desg	£100.00	isafswm
Cadair bwrdd bwyd	£15.00	isafswm
Wyneb bwrdd bwyd (yn unig)	£75.00	
Bwrdd bwyd	£165.00	
Gwaredu eitemau mawr (e.e. teledu/cyfrifiadur)	£25.00	isafswm
Atgyweirio ffrâm drws	£75.00	isafswm
Clo Drws	£100.00	isafswm
Hysbysfwrdd drws	£15.00	
Blanced tân	£10.00	isafswm
Diffoddydd tân (newydd)	£75.00	
Diffoddydd tân (ail-lenwi)	£35.00	isafswm
Oergell neu rewgell	£125.00	isafswm
Basn ymolchi	£223.00	
Twll mewn wal neu yn y nenfwd (fesul metr sgwâr)	£35.00	isafswm
Bwrdd smwddio	£15.00	

Tegell	£10.00	
Bin cegin newydd	£80.00	isafswm
Matres	£78.00	isafswm
Microdon	£50.00	
Difrod mân i wal (crafiad/staen) fesul 5cm	£10.00	isafswm
Drych	£12.00	isafswm
Hysbysfwrdd ystafell	£28.00	isafswm
Llenni cawod newydd	£12.00	
Drws cawod newydd	£200.00	
Soffa	£200.00	isafswm
Ffi galw-allan technegydd ar gyfer defnydd esgeulus o gyfarpar	£80.00	isafswm
Tostiwr	£20.00	isafswm
Toiled	£151.00	isafswm
Sedd toiled	£15.00	isafswm
Sugnydd llwch	£105.00	isafswm
Ail-baentio wal	£54.00	isafswm
Wardrob	£192.00	
Drws wardrob	£30.00	
Ail-wydro ffenestri	£175.00	isafswm

Codir hefyd am lafur mewn rhai achosion ar gyfradd yr awr (lleiafswm) o £15.00.

Sylwer - nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a gall y swm a godir amrywio yn ôl yr amgylchiadau.